

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2013

Amser:
09:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Naomi Stocks
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
deisebau@cymru.gov.uk

Kayleigh Driscoll
Dirprwy Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
deisebau@cymru.gov.uk

Agenda

- 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon 9.00**
- 2. Deisebau newydd 9.00 – 9.10**
 - 2.1 P-04-456 Dementia – Gallai hyn ddigwydd i chi (Tudalen 1)
 - 2.2 P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusenol (Tudalennau 2 – 10)
 - 2.3 P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus (Tudalennau 11 – 12)
- 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol 9.10 – 10.10**

Tai, Adfywio a Threftadaeth

- 3.1 P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx (Tudalennau 13 – 91)
- 3.2 P-04-407 Achub Llety Gwarchod Kennard Court ar gyfer Pobl Hŷn (Tudalen 92)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 3.3 P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth (Tudalennau 93 – 98)
- 3.4 P-04-424: Cadw gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot (Tudalennau 99 – 102)

Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

- 3.5 P-04-343 Atal dinistrio amwynderau ar dir comin – Ynys Môn (Tudalennau 103 – 104)
- 3.6 P-04-385 Deiseb ar ryddhau balŵns a lanternau (Tudalennau 105 – 108)
- 3.7 P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru
r (Tudalennau 109 – 133)

Llywodraeth Leol a Chymunedau

- 3.8 P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion – lle sy'n cael ei rannu
(Tudalennau 134 – 143)
- 3.9 P-04-370 Deiseb ynghylch gwella gwasanaethau seicig a greddfyl yng Nghymru
s (Tudalennau 144 – 145)
- 3.10 P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant (Tudalennau 146 – 160)
- 3.11 P-04-402 Gweddïau Cyngor (Tudalennau 161 – 164)
- 3.12 P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De
(Tudalennau 165 – 171)
- 3.13 P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion (Tudalennau 172 – 178)
- 3.14 P-04-428: Ynni amgen ar gyfer goleuadau stryd (Tudalennau 179 – 181)
- 3.15 P-04-438 Hygyrchedd wrth Siopa
(Tudalennau 182 – 186)

Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

- 3.16 P-04-414 Swyddi Cymreig
(Tudalen 187)
- 3.17 P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru
(Tudalennau 188 – 189)

Addysg a Sgiliau

- 3.18 P-04-396 Sgiliau Triniaeth Cynnal Bywyd Brys i Blant Ysgol (Tudalennau 190 – 192)
- 3.19 P-04-441 Gwaith i Gymru – Work for Wales (Tudalennau 193 – 196)

4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: 10.10

Item 5

5. Adolygiad o gymorth Pwyllgorau 10.10 – 11.00

P-04-456: Dementia – Gallai hyn ddigwydd i chi

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru:

i. I roi terfyn ar wahaniaethu yn erbyn dioddefwyr dementia yng Nghymru sy'n gwneud cais am Arian Gofal Parhaus y GIG, drwy ganiatáu i'r categori gwybyddiaeth o angen (a elwir yn barth) godi i lefel Difrifol yn y fersiwn Gymraeg o'r Offeryn Gwneud Penderfyniadau. Byddai hyn yn ei gwneud yn gydnaws â'r fersiwn Saesneg; a

ii. Bod Byrddau Iechyd Lleol uniongyrchol yn gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Arian Gofal Parhaus y GIG, yn gywir, o ran cymhwysedd cleifion a heb ystyried cyfyngiadau cyllidebol.

Prif ddeisebydd: Helen Jones

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 19 Chwefror 2013

Nifer y llofnodion: 1413

Eitem 2.2

P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i beidio â defnyddio cyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer gofal crefyddol, ac i weithio gydag arweinyddion crefydd gyfundrefnol i sefydlu ymddiriedolaeth elusennol i ariannu gofal crefyddol yn ysbytai Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r ymgyrch caplaniaeth elusennol yn cynnwys rhwydwaith anffurfiol o ddinasyddion sy'n pryderu y dylid defnyddio pob miliwn o bunnoedd o arian cyhoeddus a ddyrennir i'r GIG yng Nghymru i hyrwyddo iechyd cyhoeddus ac i drin y rheini sydd angen sylw meddygol.

Nid oes gan ein hymgyrch unrhyw arian ac nid oes angen unrhyw arian arnom. Ni chaiff ei noddi gan unrhyw sefydliad arall yng Nghymru na'r tu allan i Gymru. Mae gwasanaethau modern sy'n seiliedig ar y rhyngrydd yn caniatáu i ni gyfathrebu â'n gilydd ac â'n cynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd.

Mae ein cefnogwyr i gyd wedi gweld dwy ddogfen sydd wedi'u darparu i gefnogi'r ddeiseb hon ac maent yn cytuno â hwy, sef Principles, sy'n nodi ein hysgogiad, a Proposal sy'n nodi ein hachos gyda thystiolaeth ategol a dadl resymegol.

Rydym yn darparu trydedd dogfen sef Employment, sy'n rhoi tystiolaeth o'r ffordd y caiff yr arian sy'n cael ei dynnu o Gyllideb y GIG ar gyfer gwasanaethau caplaniaeth ysbytai ei wario ar hyn o bryd.

Prif ddeisebydd: Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 19 Chwefror 2013

The Charitable Chaplaincy Campaign

The Wales-wide, cross-party campaign for a charitable hospital chaplaincy.

Charitable Trusts

The usual test used today was laid down by their Lordships in *IRC v Pemsel* ^[1]. To be charitable, a trust must serve one of the following purposes:

- 1) The relief of Poverty [Public benefit test does not apply]
- 2) The Advancement of Education
- 3) The Advancement of Religion^[2]
- 4) Any other purpose beneficial to the Community not falling within the other categories.

[A revision in 2011 added nine other purposes - none relevant to our case.]

It is likely that a Wales Hospital Chaplaincy Fund (HCF) for publicly financed hospitals (profit-making private hospitals must be excluded) would be an acceptable proposal to the Charities Commission under either 3 or 4 of the list above. The terms of reference of the Hospital Chaplaincy Service (HCS) would determine which of the listed purposes was appropriate. The HCF would be established for the exclusive purpose of funding the HCS.

Definitions of religious and spiritual care.

The set of “Guidance” documents for Spiritual Support in the Wales NHS contains a serious ambiguity which makes discussion of this matter difficult.

The document *Guidance on Capabilities and Competences for Healthcare Chaplains/Spiritual Care Givers* provides two definitions on page 4 (quoting from *Service Development for Spiritual Care in the NHS Wales 2010*):

Spiritual Care is usually given in a one to one relationship, is completely person centred and makes no assumptions about personal conviction or life orientation.

Religious Care is given in the context of shared religious beliefs, values, liturgies and lifestyle of a faith community.

It then goes on to claim that –

“Spiritual care is often used as the overall term and is relevant for all”

This is bound to produce confusion. If the two forms of care are to be conflated then a separate term is required to remove this ambiguity.

An example of the consequence of this ambiguity occurs on the same page of the document. At one point it states “Spiritual care can be provided by all health care staff, by carers, families and other patients.” This must imply the separate definition above. It then goes on to make the unjustified claim “Chaplains are the specialist spiritual care providers”. If, in this sentence, the word “spiritual” is replaced by the word “religious” the claim might be acceptable, since the chaplain is usually a cleric, but only if the recipient of such care is of the same faith as the chaplain. Of course the

chaplain should offer spiritual care as defined by the separate definition above - that would seem to be the duty of all NHS staff in contact with patients and their families. The nursing profession might rightly claim that its members are the specialist spiritual care (as defined above) providers by virtue of their selection for employment and their professional training. It seems to me that being capable of offering spiritual care (as defined above) is as essential for an NHS employee in contact with patients and their loved ones as honesty is for a bank employee or courage and loyalty for a member of the armed services. In truth the term “spiritual care” is imprecise, ambiguous and confusing. It would be better to replace it with the three well defined terms:-
Religious care – The pastoral care provided by clerics to those who require it.
Empathetic care – The ethos by which all hospital care is delivered
Holistic care – The model of hospital care which recognises the mind-body nexus and delivers care guided by evidence of medical efficacy within an empathetic ethos.

The cost figures given below were obtained in reply to the question:-

For the previous financial year, what was the total cost to your Board for the provision of Chaplaincy Services?

It is reasonable to assume that the costs relating to training nursing staff in correct spiritual care (as defined above) and the allowance for such care in calculating work load were **not** included. The costs given are therefore in respect of Religious Care.

Stakeholder analysis

For each stakeholder it is possible to compare their interests in the choice between tax-payer funding and charitable funding of the Hospital Chaplaincy Service.

Patients: The same service is delivered by the same people and the individual patient should be entirely unaffected by the means of funding.

NHS Staff: Charitable trust funding may mean that a number of staff would retain their jobs in spite of future financial stringencies whilst the chaplaincy service received is the same in both cases.

The Wales NHS: The NHS will be able to deliver more than one million pounds worth of additional medical and/or nursing and/or ambulance services every year in perpetuity if chaplaincy is funded by a charitable trust.

The Minister: It may be felt that making the change from using NHS monies to Trust monies involves some political risk. This can be minimised by considerate transition arrangements and it would be understood by the tax-payer in a time of funding constraint.

The religious denominations: It would seem best that the tax-payer through the NHS Wales pays the bill for the chaplaincy service. But the establishment of a charitable trust would be an admirable ecumenical activity which enhances their reputation and involves their adherents in supporting fellow believers in times and situations of great challenge. This stakeholder might believe funding for chaplaincy is more secure if it comes from the public purse. This is much less likely to be true in future. Indeed, with sufficient voluntary effort, the funds raised by such a charity might even exceed those at present provided by the Wales NHS enabling a broader range of sects to be represented in chaplaincy.

The cost of chaplaincy

	2007/8	2008/9
North Wales NHS Trust	£ 159,289	£ 170,144
Velindre NHS Trust	£ 18,934	£ 19,514
Cwm Taf NHS Trust	£ 46,093	£ 97,809
Abertawe bro Morgannwg	£ 218,299	£ 216,642
Hywel Dda NHS Trust	£ 63,185	£ 115,774
Gwent Healthcare NHS Trust	£ 240,596	£ 251,483
North West Wales NHS Trust	£ 95,429	£ 103,877
Cardiff & Vale NHS Trust	£ 312,000	£ 300,845
Powys Local Health Board	£ 35,228	£ 38,119

=====	=====
£1,189,013	£1,314,207

	2009/10	2010/11
Betsi Cadwaladr NHS Trust*	£ 259,042	£ 221,619
Velindre NHS Trust	£ 57,162	£ 30,857
Cwm Taf NHS Trust	£ 117,990	£ 111,974
Abertawe bro Morgannwg	£ 214,000	£ 231,842
Hywel Dda NHS Trust	£ 124,556	£ 157,793
Aneurin Bevan NHS Trust	£ 259,910	£ 260,589
Cardiff & Vale NHS Trust	£ 293,158	£ 293,351
Powys Local Health Trust	£ 46,603	£ 45,389

=====	=====
£1,372,421	£1,353,414

2011/12

Betsi Cadwaladr NHS Trust	£ 225,815
Velindre NHS Trust	£ 30,856
Cwm Taf NHS Trust	£ 132,102
Abertawe bro Morgannwg	£ 237,426
Hywel Dda NHS Trust	£ 171,133
Aneurin Bevan NHS Trust	£ 255,173
Cardiff & Vale NHS Trust	£ 238,425
Powys Local Health Trust	£ 34,543
	=====
TOTAL	£1,325,473

* Combined North Wales and North West Wales Trusts

Total expenditure since figures first collected. **£6,554,528**

Conclusion

The provision of a hospital chaplaincy service is not a statutory obligation for the NHS. It is probably best described as a traditional provision by the NHS.

The funds available to the Wales NHS will never be so generous that a contribution from the voluntary sector may be rejected without good reason. Even if current funding (indexed against inflation) is maintained, an aging population, advances in medical and pharmaceutical science, developments in medical and nursing techniques and the rising expectations of the population will always place ever greater demands on NHS budgets. A million and a quarter pounds each and every year into the future may be seen as a small contribution but only by obtaining many such small contributions may these increasing demands be met.

The creation of a Hospital Chaplaincy Fund to cover the cost of religious care by hospital chaplains will be good for the churches, chapels, mosques, kingdom halls, temples and synagogues. The humanist movement might also join this enterprise. It would be an ecumenical enterprise that builds bridges between faiths.

The proposed charity would need to raise about £1.5 million per year to maintain the present service. This is entirely achievable. While the present fiscal arrangements are in place, a portion of this amount would be met by “gift aid” tax which is returned by the Treasury.

It would, of course, be for the NHS Wales and the proposed Hospital Chaplaincy Fund (HCF) to agree the appointment and employment arrangements for HCF funded chaplains. Since this issue has been raised during the Charitable Chaplaincy Campaign, we offer the view that hospital chaplains should be properly regulated, CRB checked, representative of the local population and trained to a high standard which must include awareness that proselytism and evangelism in an NHS setting is unacceptable. The HCF fund-raising target should be to finance the current level of establishment. If the HCF raises more money than is required to support this staffing level, additional appointments might be discussed with the Health Boards. If there is a shortfall, staffing levels would correspondingly be reduced.

The Church in Wales, the Catholic Church (Wales) and the Free Church Council have been asked to consider this matter. The reaction has been, “the NHS has taken responsibility for religious care, so the churches need not act”. Regrettably there appears to be a lack of leadership from the faith communities in this matter. As a consequence, a strong political lead is required; perhaps amounting to a declaration of a time period for the transition to charitable funding.

Notes

[1] <http://www.charity-commission.gov.uk/publications/rr1a.aspx>

[2] This term seems to have been revised very recently to:-
Public Benefit and the Advancement of Moral or Ethical Belief Systems

Alan Rogers October 2012

The Charitable Chaplaincy Campaign

The Wales-wide, cross-party campaign for a charitable hospital chaplaincy

Campaign Principles

Things we are **not** saying about NHS chaplaincy services.

1. We are **not saying** that they should be abolished.
If the religious make arrangements for the funding of chaplaincy services and these services are delivered in a way which does not offend, disturb or inconvenience hospital patients and staff then we can see no objection to their provision.
2. We are **not saying** that we know they are worthless.
We know of no substantive evidence that proves that there is a *clinical* value to chaplaincy services. If there is we would be pleased to receive references to any published peer review studies or research which proponents can provide. This is exactly the kind of evidence (if it exists) which might justify NHS expenditure. We quite understand that many people may find chaplaincy services comforting and reassuring - hence **Point 1** above.

Things we **are** saying about NHS chaplaincy services.

1. There is **no statutory requirement** for the NHS to fund a chaplaincy service.
There is a tradition to provide such a service but this could be honoured by facilitating a service which is funded by charitable donation.
2. The cost of chaplaincy services is **not insignificant**.
The NHS expenditure on chaplaincy services although small relative to total NHS expenditure is large enough to be of use to an NHS whose work is, and always will be, confined by its budget. Every million pounds that the Wales NHS spends should be carefully targeted for maximum benefit. Chaplaincy costs are in excess of one million pounds per annum.
3. Charitable funding is **financially feasible**.
The costs are such that a charitable trust could raise the required revenue by voluntary donations. For example, in Wales 25,000 donors giving £1 per week would fully fund the chaplaincy services. Many people in Wales donate £52 p.a. to support the Welsh Air Ambulance Service which is charitably funded and raises £5 million p.a.. If proponents of tax-payer funding are correct about how valued the chaplaincy service is, one might expect this target to be achieved with ease.
4. Charitable funding would **benefit hospital chaplaincy**, the Wales NHS and Wales.
It is difficult to imagine a more worth-while ecumenical project than the formation of a charitable Hospital Chaplaincy Fund organised by the Catholic Church, the Church in Wales, the many Non-Conformist denominations, Mosques, Temples and Synagogues in order to provide these services which bring comfort and support to adherents in times of great difficulty and stress. This would contribute to social cohesion. The NHS Wales would be relieved of the financial burden of this service.
That would seem to be a win-win strategy.
5. There are **already in place** the necessary organisations on which to build a charity.
In Wales there are established ecumenical organisations which are quite capable of initiating and managing a charitable Hospital Chaplaincy Fund. Probably the most appropriate of these is Cytûn (Churches Together in Wales). This is a Christian organisation and it would need to make contact with and secure the assistance of non-Christian religious communities, possibly through the Inter Faith Council of Wales, in order to be fully ecumenical.

Alan Rogers September 2012

The Charitable Chaplaincy Campaign
The Wales-wide, cross-party campaign for a charitable hospital chaplaincy

The campaign submitted Freedom of Information Act requests to obtain data on the use of NHS budget assigned to chaplaincy services. This reveals that the funds so allocated were used exclusively for the employment of theologically trained clerics.

Whole Time Equivalent Hospital Chaplains by Sect and Trust [FY 2011/2012]

Tudalen 8

	Cardiff & Vale *	Abertawe	Hywel Dda	Betsi Cadw'dr	Aneurin Bevan	Cwm Taf	Powys	TOTAL
Anglican	2.25	2.30	2.82	3.06	3.30	1.90	0.18	15.81 (52.08%)
Buddhist	0.00	0.10	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.10 (0.33%)
Catholic	0.25	0.80	0.62	0.61	0.00	0.12	0.00	2.40 (7.91%)
Hindu	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00 (0.00%)
Jewish	0.25	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25 (0.82%)
Moslem	0.25	0.00	0.00	0.00	0.17	0.00	0.00	0.42 (1.38%)
Non-conf. **.	3.25	1.90	1.86	1.92	1.50	0.30	0.65	11.38 (37.48%)
Other/No faith/ Humanist	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00 (0.00%)
TOTAL	6.25	5.10	5.30	5.59	4.97	2.32	0.83	30.36

* Includes Velindre

** Christian N.C.- Includes Baptist, Methodist, Prebyterian, Independent, Free Church, Salvation Army and possibly others unrecorded.

NOTES

Christian denominations account for 97.47% of expenditure Moslem 1.38%. All the rest 1.15%

Only two trusts employ Moslem chaplains.

Only one trust employs a Buddhist chaplain.

Only one trust employs a Jewish chaplain.

No trust recorded expenditure on Hindu chaplains.

No trust recorded expenditure on Humanist chaplains.

Four trusts employ Christian chaplains exclusively – but may have contact lists.

The Charitable Chaplaincy Campaign Petition - a personal statement

This statement has not been seen by supporters of the campaign so it would be understandable if it were considered inadmissible in support of the petition.

I believe that the state funding of religious care in NHS hospitals raises an important issue of political theory in respect of the rights of the citizen and the obligations of the state. These two matters are conflated, one might say confused, in current Welsh Government policy on hospital chaplaincy. My view is that they can and should be discussed separately.

I entirely support the proposition that the citizen, confined to hospital, should have the right to religious care. Such a right is strongly related to the right to receive visitors. The hospital patient is not (except in the most unusual cases) incarcerated by the state. The patient in hospital is receiving medical treatment of her/his own free will or if unable to or incapable of expressing permission then with the permission of the patient's next of kin.

[As an aside, I was so incarcerated in an isolation hospital when five years old (1945). I was suffering from the highly contagious disease scarlet fever. The authorities had a right in law to incarcerate me. I was allowed no visitors until I recovered. Such situations may occur today in the case of very rare highly infectious and virulent disease or severe mental illness.]

The political question which our campaign confronts is this:-

*The hospital patient has a **right** to visits from a religious carer* but does the state have an **obligation** to provide this at a cost to the public purse?*

A couple of "thought experiments" may be used to test this issue.

(1) The hospital patient has a **right** to visits from family and friends – does the state have an **obligation** to meet the cost of the travel involved in such visits and to refund loss of income?

This may become a real rather than hypothetical question as specialist services (e.g. high dependency neonatal care) are concentrated in a very small number of locations. I think the Welsh Government would answer "no" to such a question.

(2) A couple of families living in a small town in rural Wales belong to a minority religious sect. These four adults and four children cannot afford to acquire or build a temple/ church/ mosque/ synagogue/ etc neither can they afford to pay the salary of a pujari or archaka/ priest/ imam/ rabbi/ etc. The families have a **right** to freedom of worship – does the state have an **obligation** to meet the cost of creating a place of worship and to pay the salary of the religious leader required so that these families may enjoy that right? Again I think the Welsh Government would answer "no" to such a question.

If the Welsh Government does decide that it has an obligation to fund religious care from the public purse it should be able provide a closely argued defence of that position. A defence which is at least as complete as the position our campaign presents in the *Principles* and *Proposal* documents.

This, I believe, **is an obligation** on a responsible, open, democratic government.

Alan Rogers

1st February 2013

* The right to receive religious care should not diminish the rights of other patients to be treated and for hospital staff to work in an environment conducive to medical and nursing care. For example the burning of incense, ringing of bells or the chanting of religious invocations might be unacceptable.

P-04-458: Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau:

1. Y caiff addysg bellach, ynghyd ag asedau sy'n cael arian cyhoeddus, eu cadw o fewn y sector cyhoeddus.
2. Y bydd colegau'n parhau i ymrwmo i gytundebau cenedlaethol o ran Addysg Bellach, fel y graddfeydd cyflog cenedlaethol.
3. Y caiff contract Cymru gyfan ei gyflwyno ar gyfer darlithwyr ym maes Addysg Bellach
4. Na fydd Gweinidogion Cymru yn diddymu colegau na rhoi'r gallu i golegau drosglwyddo eiddo, hawliau a chyfrifoldebau i gorff arall.

Prif ddeisebydd: UCU Crosskeys Branch

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 19 Chwefror 2013

Nifer y llofnodion: 246

P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Gwybodaeth ychwanegol:

1. Roedd maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 yn datgan mai “asedau cyhoeddus yw colegau addysg bellach, y mae eu cymunedau lleol yn ogystal â'r gymuned o staff a dysgwyr, yn berchen arnynt”. Un ymrwymiad yn y maniffesto oedd “sicrhau parch cydradd rhwng darlithwyr colegau a staff addysgu mewn ysgolion drwy gynnal y cyswllt presennol rhwng tâl ac amodau” a “chyflwyno contract Cymru gyfan ar gyfer darlithwyr addysg bellach”.
2. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn hir-ddisgwyliedig ar ei fil arfaethedig ar Addysg Bellach yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru am gyflwyno newidiadau, drwy ddeddfwriaeth, a fydd yn cael gwared ar nifer o gyfyngiadau a rheolaethau ar golegau, ac yn rhoi mwy o ymreolaeth i Benaethiaid colegau.
3. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar golegau i gynnal tâl cyfartal ar gyfer darlithwyr addysg bellach ac athrawon, drwy'r llythyr amodau ariannu blynyddol y bydd yn ei anfon i golegau addysg bellach yng Nghymru. Roedd llawer o benaethiaid colegau yn gwrthwynebu'r cam i gyflwyno graddfa cyflog Cymru gyfan.
4. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â rhyw gymaint o reolaeth dros y sector addysg bellach, gall colegau ddiystyru cytundebau cenedlaethol ym maes addysg bellach, a all gynnwys graddfeydd cyflog cenedlaethol. Pe bai colegau yn diystyru'r contractau a'r graddfeydd cyflog cenedlaethol presennol, gallai graddfeydd cyflog addysgwyr amrywio'n sylweddol o goleg i goleg. Gallai hynny effeithio ar ansawdd yr addysgu felly, oherwydd na fyddai athrawon am weithio i'r colegau hynny sy'n cynnig graddfeydd cyflog is.
5. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn nodi y caiff pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu colegau ei ddisodli gan allu coleg i'w ddiddymu ei hun a throsglwyddo eiddo, hawliau a chyfrifoldebau i gorff arall. Pe bai gan golegau yr hawl i drosglwyddo eu heiddo, eu hawliau a'u cyfrifoldebau (fel y nodir yng nghynigion Llywodraeth Cymru), yna gallai colegau eu diddymu eu hunain a throsglwyddo eu hasedau i gwmni preifat cyfyngedig drwy warant.

P-03-317 Cyllid ar gyfer y celfyddydau Hijinx

Geiriad y ddeiseb

Yn dilyn y toriadau anghymesur yn arian refeniw Theatr Hijinx, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arian ar gael er mwyn gwneud yn siŵr nad yw gwaith arloesol a theilwng Theatr Hijinx mewn perygl. Mae'r cwmni unigryw hwn o Gymru wedi treulio 30 mlynedd yn datblygu cyfleoedd i bobl sydd ag anawsterau dysgu i gael eu cynnwys ar bob lefel a bydd y toriadau hyn yn golygu gostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth bresennol.

Cynigwyd gan: Mike Clark

Ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: Mis Mawrth 2011

Nifer y llofnodion: 1,893

Gwybodaeth ategol:

- Cwmni theatr proffesiynol a sefydlwyd ym 1981 yw Cwmni Theatr Hijinx. Mae'r cwmni'n mynd â chynrychiadau o safon uchel ar daith o amgylch lleoliadau bychain ledled Cymru a thu hwnt. Rhan fawr o gylich gwaith y cwmni yw gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu a grwpiau cymunedol cyffredinol.
- Lle bynnag fo'n bosibl, mae cwmni Hijinx yn gwneud ymdrech i gastio actorion sydd ag anableddau dysgu ochr yn ochr ag actorion sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol, gan greu cast cynhwysol. Nid oes unrhyw hyfforddiant drama proffesiynol ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru i oedolion talentog sydd ag anableddau dysgu, a byddwn felly'n mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys, gyda chynlluniau ar y gweill i ddarparu hyfforddiant o'r fath.
- Sefydlwyd y prosiect **Theatr Odyssey** gan gwmni Hijinx ym 1999; ariannwyd y prosiect hyd at 31 Mawrth 2011 gan y Loteri Genedlaethol [**nid yw'n** rhan o'r grant refeniw]. Grŵp cyfranogi cymunedol yw Odyssey ar gyfer oedolion o bob gallu, sy'n cydweithio â sawl mudiad lleol, Ysgol Arbennig Meadowbank (sef ysgol ar gyfer plant sydd â phroblemau cyfathrebu difrifol) a myfyrwyr sy'n astudio cerddoriaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.
- **Yn 2009, enillodd Odyssey yr ail wobwr yng nghategori gwobrwyo'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y prosiectau gorau yn y maes celfyddydau.**
- Mae tîm allgymorth Hijinx, sef **Hijinx Outreach**, yn cynnig gweithdai a phrosiectau i bobl sydd ag anableddau dysgu.

- Mae **Hijinx Outreach** yn gyfrifol am gynnal yr **Ŵyl Undod** – gŵyl sydd ar gyfer pobl o bob gallu, sy'n para am wythnos ac sy'n cynnwys perfformiadau, gweithdai a gweithgareddau eraill a gaiff eu darparu gan gwmnïoedd o bob ban o'r byd, a hynny ar y cyd â Chanolfan Mileniwm Cymru a Mencap Cymru. (Yn hanesyddol, mae'r ŵyl yn cael ei hariannu drwy ymdrechion ychwanegol i godi arian a thrwy grantiau ar gyfer cyflogau staff craidd a chostau swyddfa cyffredinol.)
- Grant refeniw Hijinx ar gyfer 2010/11 yw £234,448, yn ogystal â £29,990 o arian loteri ar gyfer y prosiect Theatr Odyssey. Mae'r ffigur hwn yn golygu bod y lefelau ariannu wedi bod yn ddigyfnewid dros y pum mlynedd diwethaf.
- O 1 Ebrill 2011, £160,000 yw cyfanswm y grant, a hynny gan **gynnwys** yr arian ar gyfer Odyssey. Mae hyn yn golygu toriad o £74,448 + £29,990, sef £104,438.
- Mae pob ffurflen monitro ansawdd a gyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru dros y tair blynedd diwethaf wedi nodi bod gwaith y cwmni'n "dda" neu'n "rhagorol".
- Mae penderfyniad y Cyngor yn gwbl groes i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac i ddyheadau ei hadolygiad buddsoddi.
- O dan y grant newydd, ni fydd Hijinx yn gallu datblygu gwaith gyda phobl sydd ag anableddau dysgu, a bydd y sefyllfa hon yn arwain at gwtogiad sylweddol yn y gweithgareddau sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Bydd aelodau o staff **yn** colli eu swyddi a bydd y cwmni'n cael ei ailstrwythuro. Yn sgil hynny, bydd cymuned ymylol yn dioddef.
- Mae Hijinx yn gwmni unigryw ac arloesol. Dyma'r unig gwmni yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd proffesiynol i oedolion sydd ag anableddau dysgu i berfformio ac i fod yn gynorthwyyr gyda gweithdai. Mae Hijinx wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd sy'n cynnwys pawb, a chred y cwmni fod gan bawb rhywbeth i'w gynnig, waeth beth yw lefel eu gallu.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen
Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau
yng Nghymru – Adroddiad y Grŵp Ffocws

Mai 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen
Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau
yng Nghymru – Adroddiad y Grŵp Ffocws

Mai 2012



Ymchwiliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfraniadau'r grwpiau a'r cyfranogwyr y mae'r Tîm Allgymorth wedi cynnal grwpiau ffocws gyda hwy. Darparwyd manylion y grwpiau gan rwydweithiau celfyddydau'r Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru (BVSNW), Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, a Chelfyddydau Anabledd Cymru.

Crynodeb

Enwau'r grwpiau, eu hardal a'r math o gynulleidfa

- Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf - Cofio - De Cymru - menywod (60 - 94 oed)
- Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf - Cyrraedd y Nod - De Cymru - pobl ifanc (11 - 19 oed) a elwir yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu mewn perygl o fod yn NEET
- Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf - Flippers - De Cymru - merched ifanc (10 - 13 oed)
- Canolfan Grefft Rhuthun - Threads in Time - Gogledd Cymru - dynion a menywod hŷn (60 - 70 oed)
- Galeri - Prometheus - Gogledd Cymru - oedolion ifanc sydd ag anableddau (16 - 25 oed)
- Galeri - Tonic - Gogledd Cymru - cymysgedd
- Celf o Gwmpas - Canolbarth a Gorllewin Cymru - gweithwyr proffesiynol, o oed a gallu amrywiol
- Arts Alive - Canolbarth a Gorllewin Cymru - menywod o amrywiol gefndiroedd
- Arts 4 Wellbeing - Canolbarth a Gorllewin Cymru - mamau sengl, a phobl â phroblemau iechyd meddwl a dysgu

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr

195

Grwpiau ffocws gyda sefydliadau

- BVSNW

- Celf o Gwmpas
- Arts 4 Wellbeing

Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru – adborth gan Gyfranogwyr

Cofio – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf

Cynhyrchiad theatr dawns atgofus yn cynnwys oedolion hŷn a gychwynnwyd gan Gelfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf ym mis Mai 2012. Mae'r prosiect hwn wedi cynnwys oedolion hŷn o 60 i 94 oed sy'n byw yng nghymunedau'r Maerdy, Glanrhedynog, Tylorstown, Stanleytown, Ynys-hir a Threbanog.

Dyddiad

7 Mawrth 2012

Niferoedd

Cyfanswm o 12 o gyfranogwyr, i gyd yn fenywod rhwng 60 a 94 oed.

Sylwadau eraill

Roedd Julie Evans, Cyfarwyddwr Artistig ac Ymarferydd Celfyddydau i Gelfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf, am bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng gwaith cyrff celfyddydol gwirfoddol a sefydliadau celfyddydol cymunedol proffesiynol. Mae angen buddsoddi yn yr allbwn a'r lefelau sgiliau gan brosiectau cymunedol proffesiynol er mwyn parhau.

Dyfyniadau

Mae cymryd rhan yn Cofio wedi cael effaith barhaus a dwfn - rydyn ni wedi datblygu sgiliau newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar hyder, rhyngweithio corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol, ac ar y cof. (Aelod o Cofio/CCRhCT).

Mae'r agwedd gymdeithasol ar Cofio a'r rhyngweithio creadigol ag eraill yn rhoi ichi deimlad o les a phwrpas - cerrig milltir ac atgofion yn cael eu rhannu drwy adrodd storïau drwy gyfrwng dawns a drama. (Aelod o Cofio/CCRhCT).

Rydw i'n berson swil iawn, ond mae dod i Cofio bob wythnos yn mynd â fi allan o'r tŷ, yn fy ngalluogi i gwrdd â phobl a dod i'w hadnabod yn well, ac mae hefyd yn gymorth i mi o ran gallu symud o gwmpas. Mae'r rhyngweithio ag eraill wedi fy helpu i ddweud fy nweud - dydw i ddim mor swil nawr. (Aelod o Cofio/CCRhCT).

Ymateb y gynulleidfa i'r perfformiad:

Rhagorol. Mwynheais bob munud. Dyna ichi griw gwych o fenywod. Mor ddawnus ac mor hyderus. Daliwch ati, ferched, rydw i am weld y sioe eto. (Aelod o'r gynulleidfa).

Wedi codi calon y gynulleidfa. Ac yn hyrwyddo gwaith cadarn rhwng y cenedlaethau. Rwyf mor falch fy mod wedi dod. (Age Cymru)

Roedd hwn yn berfformiad rhyfeddol. Mae'r cast yn rhagorol! Newid gwych o edrych ar deledu diflas. 10 allan o 10! Llongyfarchiadau!

Perfformiad rhagorol. Rwy'n 14 oed a mwynheais ddysgu am yr hanes a sut maen nhw'n byw. Mae'n ddoniol iawn hefyd!



Kevin Davies, Rheolwr Allgymorth Gorllewin De Cymru, gyda chyfranogwyr yn y grŵp ffocws cyntaf, ddydd Mercher 7 Mawrth yn Nhŷ Teifi, y Maerdy.

Threads in Time - Canolfan Grefft Rhuthun

Mae'r grŵp hwn yn dod i gyfres o ddarlithiau sgysiol sy'n archwilio'r stori ryfeddol am ganrif o arfer gwneud tecstilau, a gaiff ei threfnu gan Canolfan Grefft Rhuthun. Mae'r cyfranogwyr yn talu £5 am sgwrs o 2 awr (dydd Sul 2-4), a sesiwn holi ac ateb. Roedd y cyfranogwyr yn dod o bob rhan o'r Gogledd. Menywod gan mwyaf oedd y gynulleidfa (dim ond 2 ddyn yn y grŵp), o 60 i 70 oed.

Dyddiad

11 Mawrth 2012

Niferoedd

Cafodd dros 50 o gyfranogwyr ar y diwrnod gyflwyniad byr o 5 munud am y Pwyllgor, a chefnidir a chylch gorchwyl cyffredinol yr ymchwiliad hwn. Llenwyd yr holiadur gan 26 o bobl ac aeth rhai â chopïau ychwanegol adref gyda nhw i'w hanfon i'r cyfeiriad rhadbost. Cafwyd sylwadau ychwanegol gan 7 o bobl a rhoir manylion am y sylwadau hynny.

Cyrraedd y Nod – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf

Grŵp o brosiectau yw Cyrraedd y Nod sy'n anelu at wella'r cyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Nod 'Troedle Cyntaf' yw cryfhau'r sefyllfa bresennol i bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu mewn perygl o fod yn NEET.

Mae'r prosiect yn gweithio ar ffyrdd newydd o ysgogi pobl ifanc ac o wella'u cyfleoedd. Byddant yn datblygu ac yn cynnig gwybodaeth, arweiniad a hyfforddiant, ac yn creu cyfleoedd a phrofiadau dysgu newydd i bobl ar draws yr ystod oed.

Caiff 'Cyrraedd y Nod' ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o'r Rhaglen Gydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Bydd hyd at £27 miliwn o arian y Gronfa honno ar gael i gefnogi amrywiaeth o wahanol weithgareddau yn ystod oes y prosiectau. Daw'r gweddill yn bennaf oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r Noddwyr ar y Cyd, sef grŵp o gyrff gwirfoddol a statudol sy'n rheoli'r gweithgareddau ac yn eu darparu.

Dyddiad

14 Mawrth 2012

Niferoedd

Bu 7 o fechgyn a 4 o ferched yn cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol. Roeddent i gyd yn 11 i 16 oed. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn newydd i'r grŵp ac wedi ymuno yn yr ychydig wythnosau diwethaf. Roedd eraill yn dod ers dros bedair blynedd.

Flippers – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf

Dosbarth dawns i ferched ifanc 10 i 13 oed yw Flippers. Byddant yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn Theatr y Parc a'r Dâr yn Nhreorci. Maen nhw hefyd wedi perfformio mewn digwyddiadau fel y Noson Ddawns Gymunedol yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Miwni ym Mhontypridd.

Dyddiad

14 Mawrth 2012

Niferoedd

Bu cyfanswm o 14 o ferched 10 i 13 oed yn cymryd rhan mewn sgwrs anffurfiol iawn am gymryd rhan yn y celfyddydau.



Tynnwyd y lluniau hyn yn ystod perfformiad gan Flippers yn y Noson Ddawns Gymunedol yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Miwni ym Mhontypridd ym mis Tachwedd 2011.

Prometheus - Galeri, Caernarfon

Grŵp dawns yw Prometheus ar gyfer oedolion ifanc (16-25 oed) yn ardal Gwynedd sydd ag anableddau. Bydd y bobl ifanc a'u gofalwyr yn ymarfer bob wythnos ar brynhawn dydd Mercher o 6.30 i 9.15. Gan fod yr ariannu'n dod i ben, bydd y prosiect 3 blynedd yn gorffen ddiwedd mis Mawrth 2012.

Dyddiad

14 Mawrth 2012

Niferoedd

Bu 3 o bobl ifanc a'u gofalwyr yn cymryd rhan mewn sesiwn lle cynhaliwyd grŵp ffocws anffurfiol, a llenwyd holiadur hefyd gan y gofalwyr (fersiwn hawdd ei darllen) ar ran y bobl ifanc. Ar y cychwyn roedd dros 15 o bobl ifanc yn y grŵp yn cymryd

rhan yn rheolaidd, ond am wahanol resymau (sy'n cael eu trafod ymhellach isod) dim ond 4 aelod rheolaidd a'u gofalwyr sydd yn y grŵp bellach.

Tonic - Galeri, Caernarfon

Mae Tonic yn grŵp sy'n cyfarfod unwaith y mis gan roi i'r rhai sy'n cymryd rhan y cyfle i weld ffilm. Mae'r grŵp yn dueddol o fod yn bensiynwyr, sy'n talu £5 i weld ffilm a chael paned o de wedyn a chyfle i gymdeithasu.

Dyddiad

15 Mawrth 2012

Niferoedd

Roedd dros 50 o bobl yn cymryd rhan ar y dyddiad hwn, ond mae'r niferoedd yn rheolaidd o 80 i 150 a gallant gyrraedd hyd at 250.

Casglwyd y wybodaeth isod mewn sgysiau anffurfiol â'r cyfranogwyr ar ôl gweld y ffilm.

Celf o Gwmpas, Powys

Mae Celf o Gwmpas yn rhedeg prosiect celfyddydau gweledol, perfformio ac amgylcheddol o safon uchel ar draws Powys. Maent yn rhedeg rhaglen o brosiectau cyffrous a heriol sy'n cynnwys gwneud ffilmiau, animeiddio, cerflunio, peintio, drama a cherddoriaeth i bobl sydd ag anawsterau dysgu a phobl sy'n aml yn cael eu heithrio o gymdeithas.

Dyddiad

14 Mawrth 2012

Niferoedd

Cyfanswm o 6 o gyfranogwyr a gymerodd ran, ac roeddent i gyd yn artistiaid proffesiynol a oedd yn amrywio o ran oed, gallu a chyfrwng. Mae pob un o'r artistiaid yn y sesiwn hon yn dioddef oherwydd eithrio cymdeithasol am fod ganddynt broblemau iechyd meddwl ac anabledau dysgu.

Sylwadau eraill

Teimlai'r grŵp yn gryf fod arnynt angen cefnogaeth er mwyn gallu mynd i sesiynau yn y lle cyntaf. Credent fod nifer o bobl yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan oherwydd problemau yn eu bywyd pob dydd. Roedd diffyg ariannu o fewn yr amrywiol raglenni celf yn golygu na ellid mynd i'r afael â'r problemau hyn. Er enghraifft, dywedodd un wraig fod y celfyddydau, wrth fynd i'r afael â bywyd pob dydd (ceisio hawlio budd-daliadau, ymwneud â swyddogion) yn mynd yn

flaenoriaeth isel iawn. Mae methu cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol yn effeithio ar iechyd a lles ac yn cyfrannu at gylch o salwch, diffyg hyder a diffyg cymryd rhan yn y gymuned.

Roedd gan un o'r cyfranogwyr ddiddordeb yn arbennig mewn bod yn therapydd celf ac roedd am godi'r mater nad oes cyrsiau ar gael yn unman yng Nghymru ar gyfer y math hwn o addysg bellach. Byddai'n rhaid iddi symud i Lundain i wneud hyn.

Dywedwyd hefyd mai ychydig gydnabyddiaeth sydd yng Nghymru i gelf fel proffesiwn. Mae hyn yn golygu nad yw artistiaid proffesiynol yn cael eu hariannu, a'u bod yn methu cychwyn gyrfa a thrwy hynny'n gallu cynnwys y cyhoedd mewn gweithdai, ac ati.



Cheri Kelly, Rheolwr Allgymorth Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda chyfranogwyr Celf o Gwmpas ar 14 Mawrth.

Arts 4 Wellbeing – Caerfyrddin

Sefydliad bach a phroffesiynol iawn yw Arts4wellbeing sy'n darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a chysiau cyfleus sy'n canolbwyntio ar y person ar draws Cymru. Nod y gweithgareddau a'r cyrsiau hyn yw ysbrydoli ac ysgogi plant, pobl ifanc ac oedolion o bob oed. Mae'r broses o ddatblygu sgiliau yn ennyn diddordeb ac yn ysgogi drwy'r profiad o lwyddo.

Maent yn arbenigo mewn adeiladu hyder; gweithio gyda hunaniaeth; adeiladu cysylltiadau â'r hunan, cymdeithas a'r amgylchedd; ac edrych ar lwybrau newydd ymlaen i hyfforddiant a gwaith drwy ymdeimlad gwell o les.

Dyddiad

15 Mawrth 2012

Niferoedd

Roedd cyfanswm o 36 o bobl yn bresennol mewn grŵp cymysg, wedi'u cyfeirio drwy gyfrwng canolfan deulu Tiny Tots ac yn cynnwys mamau sengl, a phobl â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Arts Alive Cymru, Powys – Sesiwn Gyntaf

Mae'r sefydliad hwn wedi'i sefydlu yng Nghrucywel i ddarparu gweithgareddau celfyddydol o safon uchel i bawb ym Mhowys.

Dyddiad

16 Mawrth 2012

Niferoedd

Roedd 6 o bobl yn bresennol yn sesiwn y bore, wedi'u cyfeirio yno gan Gymdeithas Cyswllt Ardal Aberhonddu. Mae gan y rhai a gymerodd ran salwch meddwl o wahanol raddau, a gallent ddod i'r sesiwn yn rhad ac am ddim gan fod y sesiynau'n cael eu hariannu gan Gymdeithas Cyswllt Ardal Aberhonddu a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr.

Arts Alive Cymru, Powys – Ail Sesiwn

Dyddiad

16 Mawrth 2012

Niferoedd

Pump o wragedd sy'n mynd i ddosbarth ffi oedd yn sesiwn y prynhawn. Mae ganddynt wahanol lefelau o brofiad fel artistiaid, o artist proffesiynol a thiwtor i seicolegydd sy'n defnyddio celf fel therapi. Roedd pawb wedi dod i'r dosbarth hwn ar gyfer eu hamser creadigol eu hunain.

Sylwadau eraill

Roedd y grŵp am bwysleisio bod yna nifer o bethau da iawn yn digwydd ar hyd a lled y sir ond nad oedd digon o rannu arfer da. Er enghraifft, pam na ellid edrych ar grwpiau sy'n llwyddo i ddenu cyfranogwyr, ac yn bwysicach i gynnal y gweithgarwch hwnnw dros gyfnod?

Enw'r grŵp	Cwestiwn 1 - Ym mha fath o weithgareddau celfyddydol rydych chi'n cymryd rhan ar hyn o bryd, er enghraifft, drama, cerddoriaeth, celf, ysgrifennu, crefftau, gwneud ffilm, dawnsio?
Cofio - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Dosbarthiadau dawns a chadw'n heini.
Cyrraedd y Nod - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Amrywiaeth o wahanol fathau o gerddoriaeth, o ganu'r gitâr, y delyn, y piano, drymiau, canu a rapio. Maent hefyd wedi gwneud dawns, peintio a chrefftau. Yn ddiweddar maent wedi perfformio yn y gwobrau LAC (plant sy'n cael gofal).
Flippers - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Dawns, 'breakdancing', dawnsio stryd (rhywfaint ohono yn yr ysgol). Mae rhai o'r grwpiau'n canu offerynnau fel y fiolín a'r piano, a nifer ohonynt yn mynd ar y geidiaid hefyd.
Threads in Time - Canolfan Grefft Rhuthun	Celfyddyd cerameg a thecstilau gan mwyaf. Soniodd rhai am bryderon am aelodau eraill o'r teulu a oedd yn ymwneud mewn mathau eraill - theatr a dawns yn arbennig.
Prometheus - Galeri	Hwn oedd yr unig grŵp dawns y gwyddai'r grŵp amdano yn eu hardal yn benodol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Teimlent fod bod yn grŵp ar gyfer y grŵp oed hwn yn benodol yn ffactor pwysig wrth benderfynu dod.
Tonic - Galeri	Teimlai'r rhai y siaradais â nhw fod yna rai gweithgareddau oedd yn ymwneud â'r celfyddydau y gallent gymryd rhan ynddynt, ond roedd y rhan fwyaf yn dewis cymryd rhan yn y grŵp hwn yn unig.
Celf o Gwmpas	Celfyddydau gweledol, gan gynnwys peintio, darlunio, ffotograffiaeth, celfyddyd wedi'i hailgylchu, cerflunio.
Arts Alive - sesiwn gyntaf	Crochenwaith, cyrsiau celf yn unig. Ni wyddent am unrhyw gyrsiau eraill y gallent fynd iddynt ar wahân i'r rheini yng nghanolfannau Arts Alive, ac nid yw'r rheini am ddim.
Arts Alive - ail sesiwn	Crochenwaith, darlunio hamdden, peintio, crefftau wedi'u hailgylchu. Gweithio fel tiwtor yn dysgu crefftau, peintio a chrochenwaith. Gweithio fel seicolegydd ac yn hoffi defnyddio celf fel therapi yn fy sesiynau.
Arts 4 Wellbeing	Nid oedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau eraill am nad oeddent yn gwybod am rai eraill. Roeddent yn gwybod am theatr ieuencid a byddai rhai o'r plant yn mynd yno.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 2 - Pam rydych chi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol?
Cofio - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Mae cwmni'n ffactor pwysig; mae'n annog pobl hŷn i ddod allan, i gadw'n brysur yn gorfforol ac i barhau'n aelodau gweithgar o'r gymuned. Mae cael lle diogel i ddod i gymdeithasu, gwneud ffrindiau, adeiladu hyder, a chael lle hwyliog i fynd yn rheswm pwysig.
Cyrraedd y Nod - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	<p>Eu prif reswm dros fwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau celf yw cael cymdeithasu â phobl newydd, a siarad â phobl na fyddent fel arall yn cysylltu â nhw. Maen nhw'n cael hwyl wrth wneud hynny, ac mae'n helpu i'w cadw allan o helynt, oherwydd pe na baen nhw'n cymryd rhan yn y gweithgareddau grŵp hyn, byddent yn loetran ac yn yfed ar y stryd gyda'u ffrindiau. Mae hyn yn mynd â nhw allan o'r tŷ, ac mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau newydd gan nad oes llawer iawn o bethau eraill i'w gwneud yn yr ardal.</p> <p>Mae gweithwyr ieuenctid wrth law i siarad â nhw, ac mae'n hawdd trafod materion a phroblemau personol sy'n eu hwynebu gyda nhw.</p> <p>Maen nhw hefyd yn gallu ennill cymwysterau fel OCN, y maen nhw'n credu a fydd yn eu helpu i gael gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Roedd y grŵp yn credu mai dim ond math arall o weithgaredd a oedd ar gael iddyn nhw oedd cymryd rhan yn y celfyddydau, fel chwaraeon tîm, a gweithgareddau awyr agored fel cerdded, dringo creigiau, marchogaeth a go-cartio. Roedd y merched yn y grŵp yn arbennig o hoff o'r gweithgareddau artistig, yn enwedig yr elfen gerddorol.</p> <p>Ymhlith manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau artistig yn hytrach na mathau eraill o weithgareddau maen nhw wedi'u gwneud yn y gorffennol roedd adeiladu hyder a dysgu pethau newydd.</p>
Flippers - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	<p>Hoffi gwneud ffrindiau newydd a chymdeithasu. Roeddent yn dweud bod prosiect Flippers yn hwyl am eu bod yn hoffi dawnsio, yn gwneud nifer o wahanol fathau o ddawnsio ac yn cael eu hannog i ddefnyddio'u syniadau eu hunain y gellir eu defnyddio mewn perfformiadau.</p> <p>Mae grŵp Flippers hefyd yn ymwneud â chynorthwyo'r oedrannau iau yn eu dosbarthiadau. Maen nhw'n helpu gyda grŵp Tiny Steps, sef dosbarth dawns i blant 4 i 6 oed. Maen nhw wrth eu bodd yn gwneud hynny gan eu bod yn eu dysgu i ddawnsio, maent yn ei werthfawrogi fel profiad da at y dyfodol, a dywedasant fod aelodau'r grŵp eu hunain yn hoffi cael pobl sy'n nes at eu hoed hwy i'w</p>

	<p>dysgu a dangos iddyn nhw beth i'w wneud.</p> <p>Mae mwyafrif y grŵp yn dod er pan oeddent yn 3 oed.</p>
Threads in Time – Canolfan Grefft Rhuthun	<p>Yn gyffredinol er mwyn cwrdd â phobl o feddwl tebyg ac i gymdeithasu. Roedd teimlad hefyd fod hyn yn fath o addysg ym myd y celfyddydau ac y gallent ddysgu gan yr arbenigwyr sy'n dod i roi'r darlithiau.</p> <p>Gan fod mwyafrif y gynulleidfa dros 60 oed, teimlai nifer fod cymryd rhan yn y grŵp hwn yn ffordd o gadw'u meddyliau'n effro, a'i fod yn rhywbeth newydd iddynt ei ystyried a'i ddysgu.</p>
Prometheus - Galeri	<p>Y prif reswm a roddwyd dros fynd i'r sesiynau hyn oedd cael cymdeithasu â phobl o oed tebyg a heb deimlo'n wahanol neu ar y cyrion. Roeddent yn gyfle iddynt gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau.</p> <p>Roedd cymryd rhan yn Prometheus hefyd yn gyfle i'r bobl ifanc fod yn ffit a chadw'n heini, a hynny o les i'w ffitrwydd corfforol.</p> <p>Dywedodd y gofalgwyr y bŵm yn siarad â nhw nad oedd llawer o gyfleoedd i grwpiau o bobl ifanc sydd ag anabledau yn yr ardal hon. O'r herwydd roeddent wedi'u cyfyngu o ran dewis, ac felly'r rheswm pam roeddent yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn oedd diffyg dewisiadau.</p>
Tonic - Galeri	<p>Y prif reswm dros gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn oedd er mwyn mynd allan o'r tŷ'n rheolaidd, cwrdd â ffrindiau a siarad am y newyddion diweddaraf. Roedd yn rhywbeth roeddent yn edrych ymlaen ato bob mis.</p>
Celf o Gwmpas	<p>Mae cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp yn caniatáu i'r cyfranogwyr gryfhau o ran hyder. Gallant ddysgu sgiliau newydd a rhannu profiad. Mae'r grŵp hwn yn rhan o raglen i ddysgu sut i'w hyrwyddo'u hunain fel artistiaid, sut i redeg gweithdai a sut i ddod o hyd i'w cyllid eu hunain a'u potensial i ennill. Mae cwrdd fel grŵp yn caniatáu iddynt rannu syniadau ac archwilio ffyrdd newydd o weithio gyda'r defnyddiau ac archwilio dulliau newydd. Drwy rannu eu sgiliau a helpu eraill maent wedi cael yr hyder a'r cyfle i greu bywyd gwell iddynt eu hunain.</p> <p>Pwysleisiodd y grŵp yr angen am fod yn rhan o'r grŵp gan eu bod i gyd yn byw yng nghefn gwlad, ac nid oes gan rai yr un cyfle arall i gwrdd â phobl. Mae bod yn ynysig yng nghefn gwlad yn ffactor pwysig sy'n achosi iselder ac yn creu diffyg ysgogiad. Mae celf yn therapi sy'n rhoi llais iddynt ac yn caniatáu iddynt fynegi eu teimladau.</p>
Arts Alive – sesiwn gyntaf	<p>Diddorol, teimlad o gymuned, lles meddyliol a chorfforol. "Mae'n fy helpu i fynd i'r afael ag agoraffobia, ac mae'n fy ngorfodi i fynd allan o'r tŷ". Cwrdd â phobl wahanol na fyddent fel rheol yn cysylltu â nhw. Mae pobl â'r un</p>

	<p>problemau yn deall, a “gallaf fod yn fi fy hun”, dim beirniadaeth pan fyddant yn dod yma. Yn eu helpu i reoli eu tymer, yn rhoi strwythur i’w diwrnod. Pwrpas mewn bywyd. Yn datblygu sgiliau artistig yn ogystal â sgiliau cymdeithasol.</p>
Arts Alive – ail sesiwn	<p>Mae’n rhoi rhyddid mynegiant. Mae’n rhoi teimlad o les personol.</p>
Arts 4 Wellbeing	<p>Dywedodd nifer o bobl eu bod yn cymryd rhan yn y gweithgaredd grŵp am ei fod yn gadael iddynt fod “yn hwy eu hunain”. Roeddent yn ei ddefnyddio fel cam tuag at addysg uwch. Roedd yn rhoi iddynt y sgiliau i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Roedd yn eu galluogi ac yn ffordd i mewn i waith. Maent yn mwynhau’r cyfle i rannu profiadau a dysgu bod gan bobl eraill yr un problemau â hwy eu hunain. Roedd hyn yn caniatáu iddynt gwrdd â ffrindiau newydd a phobl o feddwl tebyg. Roedd hefyd yn herio’u rhagfarnau a’u cred am bobl eraill yn y gymuned, ac felly’n rhoi iddynt y cyfle i adeiladu ymdeimlad o gymuned. Roedd yn gyfle iddynt fynegi eu teimladau ac wynebu problemau mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Roedd yn eu helpu i gynyddu eu hyder. Roedd pobl o oedrannau cymysg yn y grŵp ac roedd yn gyfle i’r aelodau gwrdd â thrigolion hŷn yn y gymuned. Roedd yn ddihangfa iddynt o fywyd pob dydd.</p>

Enw'r grŵp	Cwestiwn 3 a) - A yw darpariaeth ar gyfer y celfyddydau wedi'i dileu yn eich ardal oherwydd toriadau yn y gyllideb?
Cofio - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Roeddent yn arfer cymryd rhan mewn dosbarthiadau cyfrifiadurol a ffotograffiaeth ddigidol, a oedd ar gael yn ddi-dâl. Fodd bynnag, mae'r ddau wedi cau yn y ddwy flynedd diwethaf oherwydd diffyg cyllid.
Cyrraedd y Nod - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Nid oeddent yn ymwybodol o doriadau cyllido a'r ffordd y gallant fod wedi effeithio arnynt neu beidio.
Flippers - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Ni wyddent am ddim effeithiau, ond soniodd un aelod ei bod wedi arfer mynd i ddosbarth dawnsio stryd yng Nghanolfan Chwaraeon Ystrad unwaith yr wythnos ond bod hwnnw wedi dod i ben 3 blynedd yn ôl. Gall hynny fod wedi digwydd oherwydd cyllido neu beidio.
Threads in Time - Canolfan Grefft Rhuthun	<p>Ar y cyfan nid oedd llawer o wybodaeth am gyllido prosiectau, a dywedai'r mwyafrif eu bod wedi clywed am doriadau yng nghyllideb y celfyddydau, ond ni themlent fod hyn wedi effeithio arnynt ryw lawer.</p> <p>Teimlai nifer mai cyllid cymunedau a gwirfoddolwyr oedd yn ymwneud â'r mwyafrif o brosiectau roeddent yn gwybod amdanynt/yn cymryd rhan ynddynt, a'u bod yn dal yn weithgar, e.e. côr lleol/grwpiau dawns. Teimlent, fodd bynnag, fod toriadau yn y gyllideb efallai'n effeithio ar y prosiectau mwy o faint a oedd yn cynnwys mwy o bobl.</p>
Prometheus - Galeri	<p>Gan fod cyllid prosiect Prometheus i ddod i ben ymhen ychydig wythnosau, teimlai'r grŵp fod hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar y bobl ifanc a gymerodd ran, gan na fyddai'r grŵp hwn ar gael iddynt mwyach i fynd iddo.</p> <p>Roedd y bobl ifanc y bŵm yn siarad â hwy yn llawn canmoliaeth i brosiect Prometheus, a themlent y byddai bwllch mawr yn eu bywydau ar ôl i'r prosiect ddod i ben.</p>
Tonic - Galeri	Nid oedd y grŵp yn ymwybodol o ddim darpariaeth benodol ar gyfer y celfyddydau a oedd wedi'i dileu yn eu hardal. Credent, fodd bynnag, mai eu diffyg gwybodaeth oedd yn gyfrifol am hynny, nid am nad oedd dim enghreifftiau.
Celf o Gwmpas	Maent wedi sylwi bod llai o gyfleoedd i fynychu prosiectau nag a fyddai ar gael gynt. Mae'n ymddangos bod mwy o hyrwyddo cyrsiau ar-lein nag mewn cylchlythyrau a hysbysebion am gyrŷiau sy'n cael eu rhedeg. Maent wedi

	gweld Cyngor y Celfyddydau'n rhoi ei arian ar "geffylau sicr" yn hytrach nag ar annog artistiaid newydd nad ydynt yn gyfarwydd iddo. Roedd rhywfaint o gyllido wedi'i ddileu a oedd i gael ei ddefnyddio i sefydlu man canolog ar gyfer darparu rhaglenni celfyddydol.
Arts Alive - sesiwn gyntaf	Nid oedd dim ar gael yn Llandrindod, a thybir bod hyn am nad oedd dim cyllid.
Arts Alive - ail sesiwn	Fel gweithiwr proffesiynol, mae'n anodd denu cyllid ar gyfer datblygu celfyddydau cymunedol. Mae'n arbennig o anodd i sefydliadau bach.
Arts 4 Wellbeing	Maent yn ymwybodol y gall y grŵp hwn bara am ddim ond 10 wythnos ac nad oes dim rhagor o gyllid i'r grŵp allu parhau.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 3 b) – Os felly, sut mae hyn wedi effeithio arnoch?
Cofio – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Nid yw hyn wedi cael effaith fawr arnynt, gan fod pawb a arferai ddod i'r dosbarthiadau hyn nawr yn mynd i Cofio. Fodd bynnag, nid yw'r cyrsiau hyn ar gael yn yr un ardal.
Cyrraedd y Nod – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	
Flippers – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Roedd yn golygu nad oedd hi'n cymryd rhan mewn dosbarth celfyddydau cyn ymuno â'r dosbarth hwn tua blwyddyn yn ôl, ar ôl iddi glywed amdano drwy ffrind.
Threads in Time – Canolfan Grefft Rhuthun	
Prometheus - Galeri	
Tonic - Galeri	
Celf o Gwmpas	Nid oedd pawb a oedd yn cymryd rhan yn gallu defnyddio'r rhyngwyd, naill ai oherwydd cyfyngiadau ariannol neu oherwydd eu lleoliad. Golyga hynny nad oes ganddynt yr un mynediad i allu cael gwybod beth sy'n mynd ymlaen, ac felly maent yn colli cyfleoedd. Roedd rhai o'r artistiaid wedi gwneud cais am gyllid ac wedi'u gwrthod am nad oedd digon o arian ar gael ar gyfer eu math hwy o brosiect/cynnig. Rhoddwyd y gorau i'r prosiect ynghylch cael man canolog gan fod y cyllid wedi'i ddileu.
Arts Alive – sesiwn gyntaf	Yn gorfod teithio ymhell i gael unrhyw beth. Yn dibynnu ar bobl i roi lifft imi, neu ni fyddaf yn gallu mynd i'r cwrs.
Arts Alive – ail sesiwn	Yn methu â pharhau'r cyrsiau. Nid yw'r cyllid yn rhoi'r rhyddid i ddarparu rhai cyrsiau oherwydd y cyfyngiadau yn y meini prawf. Gall fod yn anodd bodloni'r meini prawf pan fyddwn am wneud cwrs sy'n gwrs diddordeb ond sy'n gallu gwella sgiliau eraill.

Arts 4 Wellbeing	Wedi colli'r cyfle i wirfoddoli ar grwpiau yn y dyfodol ac felly adeiladu sgiliau'n arwain at waith. Ni fyddant yn gallu casglu profiadau. Mae rhai wedi dweud y byddan nhw, cyn gynted ag y bydd y cwrs yn gorffen, yn dechrau encilio o'r byd eto.
------------------	--

Enw'r grŵp	Cwestiwn 4 – A ydych yn credu bod gan bobl ddigon o gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn eich ardal?
Cofio – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	<p>Nac ydw – nid oes llawer o weithgareddau ar gael i'r ystod oed hwn yn yr ardal, ar wahân i Cofio a chorau lleol.</p> <p>Nid oes gan rai pobl yr amser i gymryd rhan mewn prosiectau celfyddydol, ac mae ganddyn nhw lai o arian i wneud hynny. Nid yw rhai pobl hŷn yn hoff iawn o adael y tŷ, ac roedd y grŵp yn credu bod bod yn ynysig yn rhwystyr mawr, ynghyd â theimlo nad yw gweithgareddau corfforol yn addas ar gyfer pobl hŷn. Mae hyrwyddo'n bwysig er mwyn cywiro hyn.</p> <p>Cred y grŵp fod yna gyfrifoldeb i ddenu pobl i gymryd rhan yn y gweithgaredd y byddent yn hoffi ei wneud, a bod dewis yn hollbwysig wrth ddenu pobl i gymryd rhan. Maen nhw hefyd yn gwneud cysylltiad rhwng y dewisiadau sydd ar gael, cyfranogi a'r sgiliau y gall pobl eu datblygu (h.y. ffotograffiaeth ddigidol a chyfrifiadureg – sgiliau nad yw llawer o bobl hŷn yn meddu arnynt efallai).</p>
Cyrraedd y Nod – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	<p>Pan ofynnwyd beth fyddent yn ei wneud pe na baen nhw'n dod yma, awgrymodd y grŵp mai ambell glwb ieuenctid yn unig a fyddai ar gael ar eu cyfer. Roedd nifer o'r grŵp wedi mynd i glybiau ieuenctid, ond nid oedd yr un ohonyn nhw'n mynd mwyach oherwydd bod pobl eraill yn ymddwyn yn "wirion", a chan nad oedd yno ychwaith ddigon o weithgareddau wedi'u trefnu, fel sydd yn Cyrraedd y Nod. Yn eu hystod oed hwy gallent fynd ddwywaith yr wythnos, ond nid yw'r mwyafrif ohonynt yn mynd o gwbl.</p> <p>Awgrymodd un o'r grŵp fod nifer o swyddfeydd heddlu yn yr ardal, ond nid oedd unman i bobl ifanc fynd. Awgrymodd na fyddai angen cael cynifer o swyddfeydd heddlu pe bai gan bobl ifanc bethau i'w gwneud a manau iddynt fynd i'w cadw allan o helynt.</p> <p>Mae yna glybiau pêl-droed lleol, ond maent yn eithriadol o boblogaidd, sy'n golygu na all y mwyafrif o bobl ifanc gymryd rhan yn rheolaidd. Felly, mae rhestr aros hir i ymuno â'r timau. Mae un aelod o'r staff yn gwirfoddoli fel hyfforddwr pêl-droed dan 16 yn yr ardal, ac mae ganddo 157 o aelodau dan 16 oed ar ei lyfrau.</p> <p>Teimlai rhai o'r merched fod timau chwaraeon i ferched yn rhy elitaidd (yn yr ysgol a'r tu allan), ac yn gwneud i ferched nad oeddent yn credu eu bod yn arbennig o dda yn y gêm deimlo'n ofnus ynghylch ymuno.</p>
Flippers –	Teimlad cyffredinol fod pethau i'w gwneud yn yr ardal, fel

<p>Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf</p>	<p>côr, dosbarth Flippers, a mathau eraill o gyfranogi fel clybiau ieuenctid a chodi hwyl.</p> <p>Roeddent yn eithaf beirniadol o glybiau ieuenctid lleol. Gwyddai'r rhan fwyaf o'r grŵp ble roeddent ac ar ba nosweithiau y gallant fynd, ond maent yn dewis peidio â mynd am nad yw'r clybiau'n trefnu digon o raglenni a gweithgareddau iddynt. Soniodd un ferch mai dim ond criw o bobl yn tindroi sydd yno, yn wahanol i Flippers, lle mae rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud; mae ganddynt bethau penodol i'w gwneud wrth ddod i mewn, ac ar y cyfan mae strwythur da i hyn. Maent yn hoffi cael amgylchedd strwythuredig fel hynny.</p>
<p>Threads in Time - Canolfan Grefft Rhuthun</p>	<p>Roedd y teimlad fod rhaniad Gogledd - De o ran darpariaeth yn thema a glywyd gan lawer.</p> <p>Wedi dweud hynny, credai nifer fod cyfleoedd wedi gwella yn yr 20 mlynedd diwethaf. Soniodd nifer am eu hymweliad â Lerpwl neu Fanceinion i gymryd rhan mewn gweithgaredd artistig gan nad oedd dim cyfle yng Ngogledd Cymru.</p>
<p>Prometheus - Galeri</p>	<p>Teimlai'r grŵp fod diffyg cyfleusterau perthnasol i grwpiau sydd ag anabledau difrifol gymryd rhan yn y celfyddydau. Amrywiai hynny o gyfleusterau ymarferol fel toiledau / cyfleusterau ymolchi i brinder hyfforddwy ac athrawon cymwys.</p> <p>Teimlai'r grŵp hefyd fod y niferoedd a oedd yn cymryd rhan wedi disgyn yn sylweddol, yn bennaf oherwydd toriadau cyllideb mewn meysydd eraill. Rhoddwyd enghraifft am berson ifanc a arferai ddod i'r grŵp yn rheolaidd ac a oedd yn gorfod cael cymorth gan 2 ofalwr. Oherwydd toriadau cyllideb, fodd bynnag, un gofalwr yn unig oedd ganddi nawr, ac felly ni allai ddod mwyach.</p> <p>Teimlai'r grŵp nad oedd digon o ddarpariaeth na chyfle i bobl ag anghenion cymhleth yng Ngogledd Orllewin Cymru.</p> <p>Wedi dweud hynny, dywedodd y grŵp eu bod yn credu bod diffyg gwybodaeth yn gyffredinol am gyfleoedd a oedd ar gael, ac y dylai grwpiau a sefydliadau weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo.</p>
<p>Tonic - Galeri</p>	<p>Roedd barn y grwpiau'n amrywio ar y mater hwn; roedd rhai yn dweud bod digon o gyfle ond nad oeddent yn cymryd rhan am nad oeddent yn dymuno gwneud hynny.</p> <p>Teimlai eraill fod diffyg cyfleoedd yn benodol ar gyfer y genhedlaeth hŷn. Ar yr un pryd, fodd bynnag, roeddent yn cydnabod y gallai fod yn fater o ddiffyg ymwybyddiaeth ar</p>

	<p>eu rhan hwy.</p> <p>Pan ofynnwyd ble byddent yn mynd i gael gwybod am y cyfleoedd hyn, roedd y rhan fwyaf yn ansicr ac yn credu y byddent yn dibynnu, debyg iawn, ar glywed gan eraill neu gan ffrindiau i ddweud wrthynt.</p>
Celf o Gwmpas	<p>Er y gall fod cyfleoedd ar gael, nid ydynt bob amser yn cael eu hyrwyddo'n eang (gweler y nodyn am y rhynggrwyd), sy'n golygu nad oes cyfle bob amser i gymryd rhan. Mae'r rhaglenni'n ddarniog iawn ac mae hynny'n achosi problemau o ran parhad. Nid oes lle canolog i fynd, sy'n gallu atal pobl rhag dymuno mynd. Mae pobl yn gweld canolfan gelfyddydau yn rhwystr, a chan nad oes rhaglenni'n digwydd mewn mannau pob dydd, "arferol", mae hynny'n golygu efallai na fydd pobl yn cymryd rhan am eu bod yn credu nad yw'n addas iddynt.</p> <p>Teimlai'r grŵp yn gryf fod angen gwneud mwy o waith i ddarparu rhaglenni mewn mannau lle gall pobl eu cyrraedd.</p>
Arts Alive – sesiwn gyntaf	<p>Na. Gan mai cymuned wledig yw hon, mae'n anodd iawn cychwyn pethau a'u cynnal. Mae angen nifer penodol o bobl i fynychu dosbarthiadau er mwyn iddynt fod yn ymarferol. Mae hyn yn golygu nad oes digon o ddosbarthiadau'n cael eu cynnal ar gyfer grwpiau bach o bobl sydd â diddordeb.</p>
Arts Alive – ail sesiwn	<p>Na. Mae costau teithio a chludiant cyhoeddus anaml yn atal nifer o bobl rhag gallu mynd i weithgareddau celfyddydol mewn ardaloedd gwledig. Mae llawer o bobl yn methu bodloni'r meini prawf ar gyfer y cyrsiau sy'n cael eu cynnal. Er enghraifft, gall cwrs fod yn targedu pobl ifanc ddi-waith, gan olygu nad oes dim cyllid ar gael ar gyfer aelodau hŷn y gymuned. Mae hyn yn digwydd yn gynyddol. Mae llawer o bethau'n digwydd, ond nid ydynt bob amser yn cael eu hysbysebu yn y mannau perthnasol er mwyn denu grwpiau penodol o bobl. Rhai byr iawn yw nifer o'r cyrsiau celf ac nid ydynt yn cyd-fynd ag amserlenni teuluoedd, ac ati. Ystyrir mai pethau ar gyfer y dosbarth canol uwch yw llawer o weithgareddau celfyddydol ac mae hyn yn troi pobl i ffwrdd rhag ymuno.</p>
Arts 4 Wellbeing	<p>Nid oes digon o gyfleoedd ar gael. Mae angen darparu mwy o weithgareddau celfyddydol yn yr ysgol. Ychydig weithgareddau sydd i oedolion gymryd rhan ynddynt, yn enwedig yn achos y grŵp hwn, gan fod ganddynt gan mwyaf gyfrifoldebau gofal plant sy'n golygu eu bod yn llai abl i gymryd rhan.</p>

Enw'r grŵp	Cwestiwn 5 - A fyddai unrhyw beth yn eich helpu i gymryd mwy o ran yn y celfyddydau?
Cofio - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	<p>Gallu cael cludiant - mae cael teithio am ddim ar fysiau yn hanfodol iddynt allu mynd o gwmpas. Byddai dileu hynny'n achosi problemau mawr gan olygu y byddai nifer o bobl hŷn yn ynysig.</p> <p>Mae ar bobl angen amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn denu eu diddordeb yn y lle cyntaf. Mae'r grŵp hwn wedi hen sefydlu a'r aelodau'n ffrindiau agos, ond i'r rhieni nad ydynt yn cymryd rhan ar hyn o bryd, yn enwedig mewn gweithgareddau celfyddydol, mae arnynt angen dewis er mwyn eu hannog i gymryd rhan am eu bod yn mwynhau math arbennig o gelfyddyd. Bydd hyn wedyn yn arwain at fanteision eraill, fel y soniwyd yn gynharach.</p> <p>Ystyrir bod rhai dosbarthiadau celfyddydol yn rhy broffesiynol ac yn canolbwyntio mwy ar y canlyniad yn y diwedd (tystysgrif/TGAU/Safon Uwch) nag ar y mwynhad.</p>
Cyrraedd y Nod - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	<p>Mwy o ddewis. Ar hyn o bryd maent yn gwneud beth bynnag sydd ar gael, a phe bai rhagor o bethau ar gael, byddent yn cymryd mwy o ran. Pwysleisiodd y merched nad ydynt yn gwneud digon o weithgarwch corfforol; felly, credid bod dosbarthiadau dawn ac yn y blaen yn ffordd dda o gadw'n heini a chael hwyl. Byddent yn hoffi gwneud pethau mwy cyfoes fel ffotograffiaeth, celfyddyd graffiti a <i>parkour</i>/rhedeg rhydd, sydd ar gael yng Nghaerdydd yn unig.</p> <p>Eto, roedd y grŵp yn edrych ar gyfranogi yn y celfyddydau yn yr un ffordd i raddau helaeth ag y maent yn edrych ar unrhyw fath arall o weithgaredd, a byddent yn hoffi cael mwy o ddewis yn gyffredinol yn eu hardal leol, fel timau chwaraeon, nofio a gweithgareddau corfforol eraill.</p>
Flippers - Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Byddai mwy o ddewis yn gyffredinol yn cael croeso, ond ni thynnwyd sylw at ddim byd yn benodol.
Threads in Time - Canolfan Grefft Rhuthun	<p>Roedd mwy o gyhoeddusrwydd am bethau a oedd yn digwydd i'w weld yn rhywbeth roeddent yn cytuno a fyddai'n denu mwy o gyfranogi, a byddai hefyd yn ennyn diddordeb a phresenoldeb gan gynulleidfa oedd newydd.</p> <p>Ystyrir bod cynlluniau cludiant gwledig hefyd yn rhywbeth a oedd wedi ei dreialu mewn ychydig o ardaloedd a fyddai'n</p>

	gyfle i bobl gyfranogi mwy.
Prometheus - Galeri	Roedd hwn yn gwestiwn digon anodd i'r grŵp. Fodd bynnag, mynegwyd y farn y byddai mwy o weithgareddau yn benodol ar gyfer pobl 16-25 oed sydd ag anabledau dysgu yn golygu y byddent am gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau celfyddydol. Nid oeddent am fod yn yr un grŵp â phlant iau nac oedolion hŷn.
Tonic - Galeri	Soniodd y grŵp fod cludiant yn ffactor pwysig iddynt wrth gymryd mwy o ran yn y celfyddydau, a nifer ohonynt yn dibynnu ar ffrindiau i ddod â nhw i'r gweithgareddau hyn. Ystyriwyd bod cludiant cyhoeddus yn ddewis, ond yn aml nid yw'n mynd â hwy'n ddigon agos i'r lleoliad ac felly mae hyn yn eu hatal rhag cymryd rhan.
Celf o Gwmpas	Gallu cael cludiant. Mae Powys yn sir fawr iawn lle mae llawer o raglenni ar draws ardal wledig iawn. Nid yw bysiau'n rhedeg yn aml. Nid yw amserlenni'r bysiau yn aml yn cydreddeg ag amserlenni dosbarthiadau. Golyga hyn y gallant gyrraedd dosbarth efallai, ond ni allant gyrraedd adref ac felly ni allant fynychu. Anaml y mae trenau'n rhedeg, ac nid ydynt yn cysylltu â'r trefi cywir neu ag amserlenni dosbarthiadau.
Arts Alive - sesiwn gyntaf	Byddent yn mynd pe bai gweithgareddau'n digwydd yn ystod y dydd yn hytrach na chyda'r nos. Pe bai cymorth ar gael gyda gofal plant i bobl a allai fynd gyda'r nos yn unig. Pe bai'r gweithgareddau'n cynnwys y teulu cyfan. Pe bai'r cyrsiau'n cael eu rhedeg mewn mannau lle rydym yn barod, er enghraifft clybiau ar ôl yr ysgol.
Arts Alive - ail sesiwn	Pe bai adeiladau lleol yn cael eu rhannu, fel ysgolion neu golegau, a'u cyfleusterau ar gael, fel ystafelloedd tywyll, stiwdios, stiwdios crochenwaith. Pe bai cyrsiau blasu ar gael am bris rhesymol - dim eisiau talu llawer o arian am gwrs 10 wythnos a gweld wedyn nad dyna'r peth iddynt hwy ac yn methu â chael eu harian yn ôl. Pe baent yn gallu symud arian o un cwrs i gwrs arall os nad dyna'r cwrs iawn iddynt. Pe bai pethau'n cynnwys yr holl deulu. Achrediadau, tystysgrifau a fyddai'n ddefnyddiol mewn bywyd bob dydd.
Arts 4 Wellbeing	Mwy o oriau, cyrsiau hirach (dim ond 10 wythnos yw hwn), cyrsiau dilyn ymlaen, amserau gwahanol, yn gysylltiedig â chanolfan deuluoedd sy'n darparu cyfleusterau meithrinfa. Pe baent yn cael eu darparu mewn ardal lle maent eisoes yn cyfarfod.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 6 – Beth allai eich atal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (er enghraifft, mynediad)?
Cofio – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Diffyg gallu defnyddio cludiant cyhoeddus. Cyfleusterau i gynnal sesiynau; soniwyd bod Cymunedau'n Gyntaf ar hyn o bryd yn talu cyfran o'r rhent yn Nhŷ Teifi yn y Maerdy, ac yno maent yn cynnal eu sesiynau. Pe baent yn penderfynu peidio â thalu rhent, neu pe bai'r adeilad yn cau am unrhyw reswm arall, ni fyddai dim cyfleusterau eraill yn yr ardal a byddai hynny'n ei gwneud yn amhosibl cyfranogi.
Cyrraedd y Nod – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Mae cludiant yn broblem, ac o gofio oed y grŵp mae problemau o ran cael rhieni i ganiatáu iddynt deithio ar ôl iddi dywyllu, a bod allan ar ôl amser ysgol.
Flippers – Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	Ni soniwyd am ddim problemau mynediad; ni nodwyd yn benodol fod cludiant yn broblem. Roedd gan nifer o'r grŵp drefniadau gydag aelodau eraill o'r teulu.
Threads in Time – Canolfan Grefft Rhuthun	Ym marn y grŵp, cost yn sicr oedd y rheswm pennaf a allai o bosibl eu hatal rhag cyfranogi yn y dyfodol – costau cludiant, costau parcio ceir, costau mynychu.
Prometheus - Galeri	<p>Ystyriwyd bod cludiant yn un o'r prif resymau sy'n eu rhwystro rhag cyfranogi gan fod pob aelod o'r grŵp yn dibynnu ar gael rhywun i ddod â nhw i'r gweithgaredd, boed yn aelod o'r teulu neu'n ofalwr penodol. Nid oedd cludiant cyhoeddus yn ddewis ymarferol i'r grŵp hwn oherwydd eu hanghenion.</p> <p>Ffactor arall a fyddai'n eu rhwystro rhag mynychu fyddai pe bai eu gofalwyr yn dweud nad oeddent/na allent ddod i'r gweithgarwch, oherwydd ni allai'r bobl ifanc ddod ar eu pen eu hunain.</p>
Tonic - Galeri	
Celf o Gwmpas	Diffyg cludiant cyhoeddus a chost cludiant cyhoeddus. Diffyg hyder i fynd i ddosbarth ffurfiol. Diffyg mynediad i'r rhynggrwyd (mae'r rhan fwyaf o bethau'n cael eu cyhoeddi ar y rhynggrwyd erbyn hyn), diffyg cefnogaeth bersonol i fynd i'r cyfarfod cyntaf. Diffyg rhwydweithio. Heb rhwydweithio personol mae rhai pobl nad ydynt yn gwybod beth sydd ar gael. Diffyg cefnogaeth ariannol i redeg gweithdai pan fydd y niferoedd yn rhy fach.
Arts Alive –	Costau ychwanegol darparu gofal plant, diffyg hyder, costau

sesiwn gyntaf	teithio.
Arts Alive - ail sesiwn	Costau teithio, pellter teithio, costau ychwanegol i ymuno. Diffyg hyder y bydd y cwrs yn arwain at bethau eraill.
Arts 4 Wellbeing	Cludiant cyhoeddus - diffyg bysiau, yn rhy ddrud, nid yw amserlenni'n cydreddeg ag amserau cyrsiau. Cyrsiau'n rhy bell i ffwrdd (nifer o gymunedau gwledig heb gyfleusterau). Diffyg cefnogaeth gan y teulu.

Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru – Adborth sefydliadau

Y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru (BVSNW), Caerdydd

Corff mantell yw'r Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'r sector gwirfoddol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Dyddiad

16 Mawrth 2012

Niferoedd

Roedd BVSNW wedi gwahodd croestoriad o sefydliadau a chyfranogwyr i ddod i'r sesiwn. Daeth cyfanswm o 7 o bobl i'r sesiwn, i gyd yn cynrychioli grwpiau a sefydliadau celfyddydol. Yn eu plith roedd y Cwmni Celfyddydau Diwylliannol Romani, Respect, Sound Progression, India Dance Wales, BVSNW a'r Gymuned Ffilipino.

Celf o Gwmpas, Powys

Dyddiad

16 Mawrth 2012

Arts 4 Wellbeing – Caerfyrddin

Dyddiad

15 Mawrth 2012

Enw'r grŵp	Cwestiwn 1 – Pa grwpiau o bobl sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau celfyddydol eich sefydliad?
BVSNW	Lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y gymuned Ffilipino, teithwyr Sipsi Romani, ysgolion, cymunedau lleol. Amrywiaeth eang o oedrannau, a chefnidiroedd diwylliannol amrywiol.
Celf o Gwmpas	Oedolion a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu o bob rhan o Bowys. Ysgolion ac unedau arbennig, artistiaid sydd ag anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl.
Arts 4 Wellbeing	Amrywiaeth helaeth o bobl. Yn bennaf o ran isaf y raddfa gymdeithasol, grwpiau nad ydynt yn economaidd weithgar, gan gynnwys pobl ifanc wedi'u dadrithio, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, unedau atgyfeirio disgyblion, gwasanaethau prawf, mamau sengl, cleientiaid iechyd meddwl, pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau cymdeithasol, a'r henoed.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 2 a) – A ydych yn credu bod newidiadau yn y gyllideb wedi effeithio ar gyfranogi yn y celfyddydau, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol?
BVSNW	<p>Mae BVSNW wedi cael cynnydd bychan yn ei gyllid eleni, ond o gymharu â thoriadau blaenorol mae'n gweithredu ar lawer llai o arian nag oedd ganddo mewn blynyddoedd blaenorol. Byddant yn gallu cynrychioli pobl ar draws Cymru lawer yn well oherwydd y cynnydd hwn. Roedd cyllidebau tynn gynt yn golygu eu bod yn canolbwyntio'n helaeth iawn ar Gaerdydd.</p> <p>Mae'r newidiadau mewn cyllidebau eleni wedi bod yn gadarnhaol i'r Rhwydwaith.</p>
Celf o Gwmpas	<p>Heb weld toriadau'n bersonol. Maent yn gwybod am grŵp sy'n methu dod â grŵp i'r dosbarthiadau mwyach oherwydd toriadau yn y gyllideb mewn meysydd eraill (costau cludiant i ddod i'r dosbarth). Tystiolaeth lafar yw hyn ac maent yn gweld bod y mwyafrif o bobl sy'n mynychu eu rhaglenni yn cael eu cefnogi gan y teulu ac felly'n dal i allu dod.</p> <p>Maent wedi cael symiau cynyddol o arian loteri. Maent wedi elwa o gronfa newydd gan Gyngor y Celfyddydau, a elwir yn Gamau Creadigol, sydd â'r nod penodol o fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau ar y cyrion.</p> <p>Maent yn cael cefnogaeth dda gan Gyngor Sir Powys hefyd. Maent yn gwybod am leoliad yn yr ardal sy'n cael ei fygwth gan doriadau, a hynny felly'n lleihau'r posibilrwydd i'w cyfranogwyr arddangos eu gwaith.</p>
Arts 4 Wellbeing	Ydynt. Ychydig gyllid sydd ar gael nawr. Mae'r celfyddydau uchel yn gallu cael cyllid yn hawdd iawn, ond mae'r celfyddydau ar lawr gwlad yn ei chael yn anodd cael cyllid am amrywiol resymau, sef: methu treulio amser yn ysgrifennu cynigion am gyllid, anhawster wrth wneud i'r prosiect fod yn addas o ran maint ar gyfer y ffrwd gyllido, a diffyg profiad o ymgeisio am gyllid.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 2 b) – A ydych yn credu bod hyn wedi effeithio ar rai grwpiau o bobl yn fwy nag eraill?
BVSNW	<p>Roedd pawb yn sylweddoli bod y rhain yn amserau anodd ac nad oes arian ar gael yn gyffredinol. Roedd teimlad cryf ymhlith y grŵp bod hyn wedi effeithio o'r cychwyn cyntaf ar grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, fel y rheini mae'r Rhwydwaith yn eu cynrychioli, ac nad yw'r newidiadau hyn mewn cyllid yn mynd i'r afael â'r problemau hyn.</p> <p>Soniodd un o'r grŵp eu bod wedi colli eu swyddfa, fod llai o staff ganddynt a llai o weithgareddau, a'u bod yn gwrthod ceisiadau am berfformiadau oherwydd nad oedd digon o arian. Nid yw hyn wedi cael sylw dros y blynyddoedd. Teimlai nifer ohonynt y dylai cyflogau staff uwch yng Nghyngor y Celfyddydau ac mewn sefydliadau celfyddydol eraill gael eu gostwng i gyfrannu at y diffyg cyllid.</p> <p>Mae'r effaith ar sefydliadau eraill y tu allan i'r rhai sy'n cael eu cynrychioli gan BVSNW hefyd i'w themlo ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan eu bod weithiau'n cael eu comisiynu i berfformio gan grwpiau mawr eraill. Disgwylir iddynt berfformio am arian bach o'u cymharu â grwpiau eraill o gefndiroedd ethnig mwy prif-ffrwd. Rhaid gwneud penderfyniad anodd yn rheolaidd: p'un ai perfformio'n rhatach/am ddim er mwyn cael mwy o gyhoeddusrwydd a chynyddu ymwybyddiaeth, ynteu wrthod perfformio am lai na'r gyfradd safonol. Mae Equity wedi awgrymu y dylent wrthod perfformio am lai na'r gyfradd sydd wedi'i gosod.</p>
Celf o Gwmpas	
Arts 4 Wellbeing	Clybiau ieuencid. Roedd y sefydliad wedi cael cais i gyflwyno prosiect penodol ond wedi methu â chael cyllid. Byddai'r prosiect wedi adeiladu darn o waith a fyddai'n effeithio ar y gymuned gyfan yn y pen draw.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 3 – A oes bylchau yn y ddarpariaeth i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, o ran demograffeg neu'n ddaearyddol?
BVSNW	<p>Mae nifer o bobl yn y sector yn ddibynnol ar gymorth BVSNW, felly dylai'r newidiadau mewn cyllido eu galluogi i gynrychioli pobl yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru yn well.</p> <p>Soniodd un o'r grŵp eu bod yn cael ceisiadau gan ysgolion yn y Gogledd i berfformio iddyn nhw, ond nad ydynt bob amser yn gallu gwneud hynny oherwydd y costau ychwanegol o deithio, ac ati. Mae hynny'n golygu nad ydynt yn perfformio yno gymaint ag yn y De. Mae hyn yn golygu nad yw hyrwyddo neges amrywiaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau yn digwydd mor effeithiol ym mhob rhan o'r wlad.</p>

	<p>Dadleuwyd yn gryf nad yw'r ddarpariaeth ar gael mor eang ar gyfer lleiafrifoedd ethnig ag mewn ardaloedd eraill, ac mae cydraddoldeb yn ormod o fusnes o roi marc mewn blychau.</p> <p>Dywedodd y grŵp nad yw'r broses o gyllido ceisiadau yn gyfartal. Mae sefydliadau mawr sydd wedi cael blaenoriaeth gan Gyngor y Celfyddydau yn yr arolwg cyllido yn gallu gwneud cais i ffynonellau cyllid mawr yn ogystal â ffynonellau llai y mae grwpiau a sefydliadau llai (fel y rheini yn y grŵp ffocws hwn) yn gallu cystadlu amdanynt. Roeddent yn dweud hefyd fod sefydliadau mawr sydd â mwy o gyllideb yn cyflogi ymgynghorwyr i'w helpu wrth ysgrifennu ceisiadau, sydd o reidrwydd yn arwain ar gyfradd lwyddo uwch. Nid oes gan sefydliadau llai y gallu i wneud hynny ac felly maent ar eu colled.</p> <p>Oherwydd eu prinder adnoddau i weithio, nid oes ganddynt yr adnoddau i hyrwyddo'r hyn y byddant yn ei wneud yn y dyfodol, ac i hyrwyddo llwyddiant y gorffennol, a allai olygu bod mwy o bobl yn cymryd rhan.</p> <p>Gall awdurdodau lleol helpu darpariaeth gelfyddydol yn fawr iawn drwy ddarparu manau gwag ac ysgolion yn rhatach ar gyfer y grwpiau hyn.</p>
Celf o Gwmpas	Nid oedd barn am hyn. Maent yn mynd o gwmpas gymaint ag y gallant. Nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw fylchau. Mae yna nifer o sefydliadau eiriolaeth.
Arts 4 Wellbeing	Mae llawer o gyllid ar gyfer grwpiau o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae hyn yn creu gorgyffwrdd ac yn golygu nad oes cyllid ar gael i grwpiau eraill fel yr henoed, mamau sengl (dros 25 oed), a grwpiau ieuchyd. Gwyliau yn y gymuned, a datblygu prosiectau celfyddydau nad ydynt yn bodloni meini prawf NEET.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 4 - A oes digon o adnoddau cyllido ar gael ar wahân i Gyngor Celfyddydau Cymru? A yw adnoddau cyllido eraill yn hygyrch?
BVSNW	<p>Roedd nifer yn y grŵp nad oeddent yn gwybod. Nid oeddent yn sicr pa ffrydiau cyllid sydd ar gael, sut i fynd atynt ac â phwy i gysylltu y tu allan i Gyngor y Celfyddydau. Teimlent nad yw'r wybodaeth ar gael yn eang.</p> <p>Awgrymodd eraill fod hyn yn dibynnu ar y math o gelfyddyd. Ychydig ffynonellau cyllid sydd ar gyfer dawn, ond os oedd hynny'n cynnwys plant, roedd digon o ddewisiadau. Soniodd un o'r grŵp ei bod wedi'i llethu wrth geisio chwilio am gyllid i'r celfyddydau ar-lein gan fod cynifer o bosibiliadau. Fodd bynnag, ar ôl iddi roi cynnig ar rai posibiliadau, daeth yn amlwg iawn mai cyfran fechan yn unig a oedd o bosibl yn gymwys. Roedd angen treulio llawer o amser a gwneud llawer o ymdrech i wneud hyn, ac nid yw grwpiau llai hyn gallu gwneud hynny.</p>

	<p>Mae yna ddiffyg eglurder am yr hyn y mae'r sawl sy'n darllen y cais yn chwilio amdano, a hwnnw yn y pen draw sy'n gwneud y penderfyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion efallai na fydd gan yr unigolyn sy'n gweithio dros grŵp sy'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig yr arbenigedd i lenwi ffurflenni'n effeithiol, a hwyrach na fyddant yn gwybod ar beth i ganolbwyntio i wneud eu cais yn fwy effeithiol. Nid yw'r ffaith fod sefydliadau mwy o faint (a all fod ag adnawdd arbenigol neu'n cyflogi ymgynghorwyr i ysgrifennu ceisiadau) yn cystadlu am yr un gronfa o arian yn helpu yn hyn o beth. Mae teimlad cryf fod hyn yn elitaidd.</p> <p>Mae yna ddiffyg arweiniad ar gael i unigolion a grwpiau ynghylch ffynonellau cyllid amgen os cânt eu gwrthod gan Gyngor y Celfyddydau.</p> <p>Mae gan BVSNW rôl yn y broses o gynorthwyo'r grwpiau hyn wrth ddsbarthu cyllid.</p>
Celf o Gwmpas	<p>Na. Nid ydynt yn gallu cael arian o Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop am eu bod yn yr amcan anghywir. Ystyrir bod Powys yn rhy gyfoethog. Nid oes ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac felly ni ellir denu cyllid. Gallant fynd at Gyngor y Celfyddydau a Chyngor Sir Powys yn unig. Maent wedi troi at rywfaint o arian loteri.</p>
Arts 4 Wellbeing	<p>Yn gwybod am lywodraeth leol a rhai elusennau ac ymddiriedolaethau'n unig .</p>

Enw'r grŵp	Cwestiwn 5 – Beth yw rôl y sector celfyddydau gwirfoddol wrth hyrwyddo cyfranogi yn y celfyddydau yng Nghymru a sut y gellir cefnogi hyn?
BVSNW	<p>Pwysig iawn - yn enwedig i'r sector hwn. Nid yw sefydliadau celfyddydol mawr a Chyngor y Celfyddydau'n gallu cysylltu â chymunedau lleol a lleiafrifoedd ethnig am nad oes ganddynt y sgiliau, y wybodaeth na'r berthynas â'r gynulleidfa. Dadleuwyd bod hyn yn broblem fawr, a theimlai nifer o'r rheini a oedd o gwmpas y bwrdd y dylai BVSNW ei hun fod yn adran yng Nghyngor y Celfyddydau os yw o ddifrif am ymgysylltu â grwpiau ethnig sy'n cael eu tangynrychioli.</p> <p>Mae ar y grwpiau hyn angen gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau'r rhai sy'n dosbarthu cyllid, er mwyn iddynt wybod sut i flaenoriaethu eu gwaith a chael cyllid ar gyfer prosiectau.</p>
Celf o Gwmpas	<p>Yn y gymuned mae sail celfyddydau gwirfoddol. Mae rhwydweithio â sefydliadau eraill yn hawdd, ac felly mae llai o ddyblygu gwaith yn y sector gwirfoddol. Mae yna gronfa ddata, Arts Engine, sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Sir Powys, a gallant fynd i mewn iddi ond rhaid talu am wneud hynny. Byddai cronfa ddata ganolog 'Beth sy'n Mynd Ymlaen' yn help iddynt sicrhau bod eu rhaglenni'n cael eu hyrwyddo ac nad oes gorgyffwrdd. Mae'r cyngor lleol yn darparu cyfieithiadau am ddim ar gyfer eu cyhoeddiadau a'u dogfennau. Mae hyn yn amhrisiadwy. Gall ymaelodi mewn sefydliadau fod yn ddrud, ond mae'n hanfodol. Fodd bynnag, oherwydd faint o gyllid sydd ar gael, rhaid iddynt ddewis pa grwpiau y maent yn ymuno â</p>

	hwy.
Arts 4 Wellbeing	Mae Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn gymunedau gwledig iawn ac yn y cymunedau hyn mae pobl yn ynysig, yn wasgaredig ac yn fregus. Gall y mathau hyn o weithgareddau helpu pobl i gysylltu â'u cymunedau, cwrdd â phobl newydd, ac adeiladu gwerthoedd cymunedol drwy rannu profiadau. Gallant helpu adeiladu sgiliau pobl wrth iddynt wirfoddoli i helpu yn y prosiectau.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 6 - A yw'r berthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff sy'n dosbarthu cyllid ar gyfer y celfyddydau yn effeithiol wrth gynyddu cyfranogiad?
BVSNW	<p>Nac ydyw. Teimlai'r grŵp y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy uniongyrchol, ac y dylid craffu'n fanylach ar Gyngor y Celfyddydau. Mae angen mwy o ddeialog â'r rhai sy'n cymryd rhan ac â sefydliadau pan gaiff eu polisiau, eu nodau a'u hamcanion eu gosod, a dylid cael mwy o gyfle i'w herio.</p> <p>Teimlent nad yw eu cyfraniad yn cyfrif ryw lawer gan mai grŵp lleiafrif ydynt ac ni allant effeithio ar bolisi i'r un graddau â sefydliadau celfyddydol mwy o faint. Mae'n ymddangos bod methiant mawr mewn cysylltu rhwng nodau ac amcanion Cyngor y Celfyddydau a'r sefydliadau ethnig hyn.</p> <p>Cafwyd llawer o sylwadau am allu swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd anghysondeb yn safon eu cefnogaeth, ac mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau maent yn eu hysgrifennu yn gadarnhaol. Ond wedyn ânt ymlaen i ddweud nad oedd rhai enghreifftiau'n bodloni amcanion y cyllido. Teimlai nifer o'r grŵp eu bod yn dod i'r casgliad hwn oherwydd diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth, ac y dylai fod gan Gyngor Celfyddydau Cymru systemau eraill ar waith, fel cael adborth swyddogol gan gyfranogwyr a'r gynulleidfa. Roedd adegau hefyd lle'r oedd swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru wedi atal cyllid a oedd wedi ei gytuno gynt hyd at bythefnos cyn i ddigwyddiad fynd yn ei flaen, a hynny wedi effeithio ar lwyddiant y prosiect. Mae gwahaniaethau mewn agwedd, barn a dealltwriaeth y swyddog mewn perthynas â gwaith grwpiau celfyddydol ethnig yn bwysig, ac o bosibl yn fater o ddehongli polisiau'n wahanol.</p> <p>Soniodd nifer o'r grŵp fod system Cyngor y Celfyddydau'n hen a'r ystadegau am nifer y cyfranogwyr ethnig yn gamarweiniol. Dywedent fod cyflwyno lefelau cyfranogi ac ymwneud gan bobl ethnig mewn canrannau yn celu'r niferoedd gwirioneddol, a fyddai'n adlewyrchu'n llai ffafriol ar Gyngor Celfyddydau Cymru. Beth sy'n cael ei gyfrif yn gelfyddyd ethnig? A yw person du ei groen sy'n gwneud bale yn cael ei ystyried yn gelfyddyd ethnig? Neu a yw person gwyn ei groen sy'n perfformio dawns Indiaidd yn cael ei ystyried yn gelfyddyd ethnig?</p> <p>Ystyrid bod y broses gyllido yn eithriadol o gymhleth, a theimlai nifer ohonynt nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru'n cyllido rhai prosiectau celfyddydau ethnig am eu bod yn cael eu gweld yn rhan</p>

	o grwpiau celfyddydol eraill. Byddai hynny'n gosod cynsail i eraill hawlio y dylent hwy hefyd gael cyllid. Teimlent fod hyn yn anghyfiawn oherwydd bod gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ofynion cyllido gwahanol.
Celf o Gwmpas	Ydy, mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweithio'n dda, a hefyd cyllid loteri. Nid ydynt yn glir sut mae'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda'r Llywodraeth, ond maent yn dweud eu bod i'w gweld yn gweithio.
Arts 4 Wellbeing	Mewn rhai ardaloedd mae wedi gweithio gan fod y cyrff nawr yn atebol ac yn gorfod darparu arian. Nid oeddent yn sicr fod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol sut y dylai'r arian gael ei wario wrth osod meini prawf. Er enghraifft, mae angen mwy o arian mewn ysgolion ac mewn cerddorfeydd ieuenctid, ac mewn celfyddyd yn ei rhinwedd ei hun.

Enw'r grŵp	Cwestiwn 7 – Bydd pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol erbyn mis Ebrill 2012. A ydych yn credu y bydd y dyletswyddau cydraddoldeb newydd hyn yn y sector cyhoeddus yn helpu cynyddu cyfranogi yn y celfyddydau ymhlith grwpiau yng Nghymru sy'n cael eu tangynrychioli?
BVSNW	<p>Roedd nifer yn y grŵp na wyddent beth oedd hyn yn ei olygu. Roedd BVSNW yn rhan ô'r ymgynghori. Roedd llawer o amheuaeth ynglŷn â rhagor o bolisiâu, mwy o eiriau ar bapur. Teimlent fod polisiâu'n bod ers blynyddoedd, ond mae'r sefyllfa mewn gwirionedd yn hollol wahanol pan welwch eu staff (oed, rhyw ac ethnigrwydd) a'r ffordd maent yn hyrwyddo'u gweithgareddau ac yn eu targedu.</p> <p>Teimlent fod angen i ddeinameg sefydliadau celfyddydol mawr newid ac nad yw cydraddoldeb yn digwydd ar bapur. Pwysleisient bwysigrwydd defnyddio cynrychiolaeth gyfartal o ran y rhywiau ac o ran ethnigrwydd mewn sefydliadau, a'r ffordd mae hynny'n cysylltu â gweithredu eu polisiâu'n llwyddiannus.</p> <p>Dylid symleiddio polisiâu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dehongli'n gywir ac yn gyson, fel y gall unigolion a grwpiau eu defnyddio a chyfeirio atynt, yn enwedig wrth wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau.</p> <p>Mae nifer o artistiaid yn cael eu gorfodi i fynd i Loegr oherwydd diffyg cyfle i grwpiau yng Nghymru sy'n cael eu tangynrychioli.</p>
Celf o Gwmpas	Bydd. Pan fydd y cynlluniau strategol ar waith, byddant yn helpu pobl sy'n codi arian i sefydlu prosiectau gyda'r nodau strategol mewn golwg. Bydd hyn yn eu helpu wrth wneud cais am gyllid oherwydd gallant deilwra'u prosiectau yn ôl y nodau strategol.
Arts 4 Wellbeing	Na fydd. Gall gorfod tendro ar sail cynlluniau cydraddoldeb yn unig achosi problemau wrth gael cyllid. Gall leihau gallu sefydliadau gwirfoddol, cwmnïau bach ac unigolion i wneud cais am gyllid oherwydd bod y prosiectau maent yn eu darparu'n seiliedig ar y

	person cyfan yn hytrach nag ar y setiau sgiliau sy'n cael eu targedu. Ychydig amser sydd ganddynt i ymchwilio i'r cynlluniau er mwyn llunio cynnig yn seiliedig ar y meini prawf.
--	---

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

**Adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl
a Gorffen ar Gyfranogiad yn y
Celfyddydau yng Nghymru**

Ionawr 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Tudalen 51

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl
a Gorffen ar Gyfranogiad yn y
Celfyddydau yng Nghymru

Ionawr 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Sefydlodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol grŵp gorchwyl a gorffen oedd yn cynnwys tri Aelod i ystyried ac adrodd ar Gyfranogiad yn y Celfyddydau. Aelodau'r grŵp oedd Ann Jones (Cadeirydd), Rhodri Glyn Thomas a Joyce Watson.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Joyce Watson

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Rhodri Glyn Thomas

Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	6
2. Rhwystrau rhag cyfranogi	9
3. Cyfeiriad Strategol	16
Llythyr cylch gwaith blynyddol ac atebolrwydd	17
Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru	18
Y Sector Gwirfoddol.....	20
Rhwydweithiau	20
Dyletswyddau cydraddoldeb	22
Ein barn ni	23
4. Cyllid	27
Targeddu	28
Cyllid tymor byr a thymor hir.....	29
Cystadleuaeth	30
Cyngor a chanllawiau	31
Buddsoddi preifat.....	32
Ein barn ni	34
Tystion	36
Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	37

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi ar waith gynllun gweithredu ar gyfranogi, ochr yn ochr â'i gynllun gweithredu hygyrchedd, gyda'r diben o gynyddu lefelau cyfranogi ledled Cymru. (Tudalen 26)

Argymhelliad 2. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i fonitro lefelau cyfranogi ar draws y celfyddydau, ynghyd â chamau gweithredu i ganfod anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth (e.e. oherwydd rhesymau daearyddol, economaidd neu gymdeithasol). (Tudalen 26)

Argymhelliad 3. Yn ychwanegol at hygyrchedd a chydraddoldeb, dylai llythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru gynnwys pwyslais ar gynyddu lefelau cyfranogi. (Tudalen 26)

Argymhelliad 4. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i sicrhau cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth a chydweithio ymhlith partneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. (Tudalen 26)

Argymhelliad 5. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru barhau i adolygu ei bolisiau ariannu, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu rhagoriaeth, tra'n cynyddu lefelau cyfranogi. (Tudalen 35)

Argymhelliad 6. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau y gall sefydliadau gael mynediad at wybodaeth am ffynonellau ariannu eraill. Dylai hyn fod ar ffurf hyfforddiant, os oes angen. (Tudalen 35)

Argymhelliad 7. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau ei fod yn defnyddio'i berthynas â rhwydweithiau i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd sefydliadau perthnasol. (Tudalen 35)

Argymhelliad 8. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru roi strategaeth ar waith i gynyddu lefelau ariannu gan fusnesau. (Tudalen 35)

1. Cyflwyniad

1. Mae sector y celfyddydau yng Nghymru yn eang ac yn amrywiol. Caiff rhai gweithgareddau celfyddydol eu darparu gan rwydweithiau proffesiynol, mawr, a chaiff eraill eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Ymhlith y ffynonellau ariannu mae Cyngor Celfyddydau Cymru (sydd hefyd yn dosbarthu arian y Loteri), awdurdodau lleol a ffynonellau eraill fel ymddiriedolaethau elusennol a busnesau preifat.

2. Caiff cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol ei amlygu gan erthygl 27(1) o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR), sy'n nodi:

"Y mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymdeithas, i fwynhau'r celfyddydau ac i gyfranogi o gynnydd gwyddonol a'i fuddiannau."

3. Mae erthygl 30 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl sydd ag Anableddau hefyd yn nodi:

"Mae gan bobl anabl yr hawl i ddatblygu a defnyddio eu potensial creadigol, artistig a deallusol – er eu lles eu hunain ac oherwydd ei fod yn cyfoethogi cymdeithas."

4. Yng Nghymru, caiff y gwerthoedd hyn eu tanategu gan strategaethau fel [Strategaeth Gyfranogi \(2009-13\)](#) Cyngor Celfyddydau Cymru, *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru a chynlluniau cydraddoldeb strategol awdurdodau cyhoeddus.

Ymchwiliad i hygyrchedd

5. Yn ystod y trydydd Cynulliad, cynhaliodd y cyn Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant ymchwiliad hir i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru, a chyflwynodd adroddiad ym mis Chwefror 2011.¹

6. Ym mis Ionawr 2012, darparodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran argymhellion yr adroddiad i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.²

¹ Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru](#), Chwefror 2011

² [Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru](#), 18 Ionawr 2012

Deisebau

7. Cafodd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad nifer o ddeisebau yn dilyn Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynegi pryder am effaith y penderfyniadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad hwnnw.³

Cylch gorchwyl

8. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

Bydd y Pwyllgor yn:

- asesu effaith toriadau mewn cyllidebau ar gyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru, yn arbennig, a yw hyn wedi effeithio mwy ar rai grwpiau o bobl nag eraill;
- canfod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer cyfranogiad yn y celfyddydau, o ran demograffeg a daearyddiaeth;
- ystyried rôl y sector celfyddydau gwirfoddol o ran cyfranogiad yn y celfyddydau ac edrych ar ffynonellau ariannu eraill;
- gwerthuso'r fframwaith polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff sy'n dosbarthu arian i'r celfyddydau; ac
- ystyried a oes gan fudiadau celfyddydol yng Nghymru'r modd o ddarparu amcanion cydraddoldeb eu harianwyr.

Dull

9. Gan mai ar gyfranogiad yn y celfyddydau yr oedd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio, teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig casglu barn unigolion yn ogystal â sefydliadau. Roedd yr alwad am dystiolaeth yn adlewyrchu hyn, ac roedd cwestiynau ymgynghori ar gael mewn amrywiol ffurfiau.

10. Trefnodd Tîm Allgymorth y Cynulliad nifer o weithdai ledled Cymru a groesawyd gan sefydliadau celfyddydol lleol. Defnyddiwyd y rhain i gasglu barn unigolion na fyddent efallai wedi ymateb i'r ymchwiliad fel arall. Mae adroddiad ar y gweithgareddau casglu tystiolaeth hyn ar gael ar wefan y Pwyllgor.⁴

³ P-03-317 - Cyllid ar gyfer y celfyddydau Hijinx; [P-03-308 - Achub Theatr Gwent](#) ; [P-03-311 Theatr Spectacle](#); [P-03-314 - Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys](#)

⁴ [Adroddiad y Grwp Ffocws](#)

11. Cynhaliwyd dwy sesiwn tystiolaeth lafar ar 15 a 29 Mawrth, pan roddodd cynrychiolwyr o amrywiol sefydliadau gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Theatr Hijinx, Celfyddydau Anabledd Cymru a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru, ymhlith eraill, dystiolaeth.

2. Rhwystrau rhag cyfranogi

Cyflwyniad

12. Mae'r bennod hon yn nodi'r adborth a gawsom gan dystion am yr hyn y maent yn ei ystyried yn rhwystrau rhag cyfranogi. Ym mhenodau 3 a 4 byddwn yn nodi rhai o'r ffyrdd y credwn y gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Trafnidiaeth ac ardaloedd gwledig

13. Tynnodd dros dri deg o ymatebwyr sylw at dtrafnidiaeth a natur wledig eu hardaloedd fel rhwystrau mawr rhag cyfranogi yn y celfyddydau. Nododd pobl fod costau cynyddol tanwydd, lleihad mewn gwasanaethau trafniadaeth lleol a chau sefydliadau celfyddydol lleol i gyd yn ffactorau a oedd yn cyfrannu at eu penderfyniad i gyfranogi mewn gweithgareddau. Nododd llawer o ymatebwyr⁵ yn arbennig ddiffyg trafniadaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig a gyda'r nos.

14. Tynnodd ymatebwr unigol sylw at achos arbennig lle mae trafniadaeth yn rhwystr rhag cyfranogi yng ngogledd Cymru:

"[...] without Theatr Harlech people in Ardudwy have to drive for over an hour each way to attend similar/ larger scale arts events on the North Wales coast in Caernarfon, Bangor and Llandudno.

"There is no public transport available for such journeys in the evenings. Such distances, especially in the winter months, severely restrict the opportunities and increase the cost of participating in live arts for local people."

15. Nododd Hijinx faterion arbennig yn ymwneud â thrafnidiaeth i bobl sydd ag anabledd dysgu:

"Adults with learning disabilities who live in supported housing and are not able to travel by bus are unable to access either performances or participatory activities. Performances in mainstream venues are often too expensive for them. Vulnerable adults and older people are often anxious about travelling after dark."⁶

⁵ Celfyddydau Gwirfoddol Cymru - Celfyddydau 10

⁶ Theatr Hijinx - Celfyddydau 04

16. Tynnodd Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sylw hefyd at y mater o gost trafndiaeth. Mewn sesiwn grŵp ffocws, nododd Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru ei fod yn cael ceisiadau i berfformio mewn ysgolion yng ngogledd Cymru, ond nad yw bob amser yn gallu gwneud hynny oherwydd y costau teithio ychwanegol. Mae hyn yn golygu nad yw'r grŵp yn perfformio cymaint yn y Gogledd ag y mae'n ei wneud yn y De. Cafodd hyn ei adleisio gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam, a wnaeth sylw ar y mater o annog gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau i deithio i ogledd Cymru.

Bylchau yn y ddarpariaeth

17. Canfuwyd nifer o fylchau yn y ddarpariaeth. Roedd y rhain yn cynnwys bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer:

- pobl anabl (a amlygwyd gan Gelfyddydau Anabledd Cymru, Touch Trust a Prometheus);
- pobl hŷn (a amlygwyd gan Age Cymru, Cymdeithas Gerdd Harlech ac Ardudwy a Tonic);
- pobl ifanc (a amlygwyd gan Oriel Myrddin a Chwmni'r Frân Wen); a
- phobl sy'n byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (a amlygwyd gan Gywaith Cymru, Opera Canolbarth Cymru a Grym y Fflam).

18. Nododd tri ymatebwr fod bylchau yn y ddarpariaeth o gelfyddydau traddodiadol.⁷

19. Mynegodd Celfyddydau Anabledd Cymru bryder am y ffyrdd anuniongyrchol y gallai pobl anabl gael eu heffeithio arnynt gan ostyngiad yn y gyllideb:

“[...] when money is tight, or perceived to be tight, arts organisations and events organisers will make cuts to accessibility. Perhaps they will go for a cheaper venue where the access is not so good for disabled people, or worry less about whether there is enough parking, or access to the stage, or whether they can get sign language interpreters, or whatever the access issue is.”⁸

20. Mae Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru yn cynrychioli artistiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a

⁷ grŵp ffocws Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru

⁸ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

gwnaeth y sylw fod yn rhaid i'w artistiaid weithio am dâl isel er mwyn perfformio:

“[organisations] have an issue where they say they are expected to perform for minimal sums when comparing to other groups from more mainstream ethnic backgrounds.

“A difficult decision has to be made on a regular basis: do they perform at cheaper rates/free to increase exposure and awareness or do they refuse to perform under the standard rate. Equity has suggested that they should refuse to perform under the set rate.”⁹

21. Fodd bynnag, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a siaradwyr Cymraeg yn aml yn cyfranogi mwy yn y celfyddydau, yn ôl cyfran.¹⁰

22. Tynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru sylw at y gwaith y mae wedi'i wneud, a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud, er mwyn anelu darpariaeth gelfyddydol at grwpiau penodol o bobl a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Nododd:

“[...] our targeted development programmes are usually targeted at areas, groups, communities, or communities of artists that cannot access the more general funding, such as schemes funding, or are not part of our revenue portfolio. ...

“Creative Steps looks to target artists who might, for example, come under the protected characteristics in the new Equality Act 2010.

“It is a very different way of working. It is about identifying those people, inviting them to come and have conversations with us, and then looking at the work that they have been doing, what their development needs might be, what kind of projects they might wish to develop, and working much more closely with them to look at what kind of funding might be appropriate.”¹¹

Cymunedau o amddifadedd a chost cyfranogi

23. Tynnodd wyth unigolyn a ymatebodd i'r ymgynghoriad sylw at gost gweithgareddau fel rhwystr mawr arall rhag cyfranogi. Awgrymodd rhai

⁹ Grŵp Ffocws y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru

¹⁰ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

¹¹ Ibid

ymatebwyr fod pobl sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio arnynt gan ostyngiad mewn cyllidebau gan eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu ar ddarpariaeth â chymhorthdal.

24. Nododd pedwar sefydliad, gan gynnwys Cyster, y byddai'r newidiadau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn effeithio ar gyfranogiad ymhlith pobl mewn cymunedau o amddifadedd.

25. Nododd Dawns i Bawb:

“There is less funding available within Communities First so groups/ organisations which used to buy our services cannot do so any longer. As a consequence, it has become more difficult to reach people in these areas.”¹²

26. Nododd Cymdeithas Gerdd Harlech ac Ardudwy ei bod wedi gorfod codi'r ffioedd am gyrsiau oherwydd y gostyngiad mewn cyllid, ac roedd Theatr y Byd Bach wedi sylwi bod gostyngiad nodedig yn y rhai a oedd yn mynychu'r theatr o gymunedau difreintiedig.

27. Nododd amryw o unigolion y byddai prisiau gostyngol yn eu hannog i gyfranogi mwy. Nododd un unigolyn:

“[...] most arts activities are run by private companies, who are able to charge what they like, which obviously limits the attendance to people who are able to afford it, rather than be subsidised which would make them accessible to all.”

28. Dywedodd unigolyn arall:

“Although I am a Senior Citizen, I pay full fees for this course [...]It's quite a struggle to find the full fees.”

29. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod mwy o bobl yn gwneud ceisiadau am gymorth ariannol i fynychu gweithgareddau celfyddydol:

“While we have not seen a significant decrease in numbers of participants, we are experiencing people needing to seek financial assistance to attend. We have considered offering our programmes for free however we feel that this devalues a service that is already

¹² Cymuned Ddawns i Conwy, Gwynedd a Ynys Môn - Celfyddydau 28

being subsidised from the core budget and that people still need to pay to appreciate the high quality of service on offer.”

Addysg

30. Soniodd Theatr Gwent a Theatr Spectacle am y toriadau yng nghynllun theatr mewn addysg Cyngor y Celfyddydau. Nododd Theatr Gwent:

“The cut in funding for Theatre in Education has been catastrophic. In the region of 20,000 young people have been denied access to TIE services in The Greater Gwent area alone. Similarly there is now no provision for TIE in either Rhondda Cynon Taf or Powys.”

31. Ynglŷn â'r mater hwn, gwnaeth Theatr Spectacle y sylw canlynol:

“A generation of young people will be disenfranchised from their entitlement to access the arts in their community.”

32. Nododd Cyster fod toriadau yng nghyllidebau ysgolion hefyd wedi effeithio ar gyfranogiad yn y celfyddydau mewn ffordd anuniongyrchol.

“Cuts to schools budgets have also had a massive effect already in terms of work in education. The cost of transport means we have run all our workshops within schools so that children do not need to pay to travel to rehearsals.”

33. Teimlai Arts 4 Wellbeing¹³ y dylai ysgolion gynnig mwy o gyfleoedd i gyfranogi, a gwnaeth Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf sylw ei fod yn teimlo nad yw'r system addysg yn gwerthfawrogi'r celfyddydau ddigon.

Cyfleusterau a lleoliadau

34. Tynnodd sefydliadau sylw at y ffaith bod toriadau mewn arian cyfalaf yn fater pwysig. Gwnaeth canolfan Tŷ Cerdd y sylw bod offerynnau newydd yn ddrud ac nad yw'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer ymarferion bellach yn addas at y diben. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cydnabod y materion hyn, er enghraifft nododd Cyngor Sir Gâr mai cynaliadwyedd lleoliadau yw'r flaenoriaeth yno, ond bod hyn yn effeithio ar y grwpiau o bobl sy'n cyfranogi:

“While we are now having to prioritise venue sustainability as being the most effective way of providing access to the arts for most, this is

¹³ Grŵp ffocws Arts 4 Wellbeing

beginning to affect the scope of being able to provide certain targeted interventions.”¹⁴

35. Mewn sesiwn grŵp ffocws, gwnaeth Arts Alive y sylw y dylai ysgolion a cholegau sicrhau bod eu hadeiladau a'u cyfleusterau (fel ystafelloedd tywyll a stiwdios crochenwaith) ar gael yn haws i grwpiau celfyddydol.

36. Gwnaeth Celf ar y Blaen hefyd sylw ar bwysigrwydd ysgolion fel lleoliadau, gan ddweud bod diffyg ysgol yng ngogledd Tor-faen yn ei gwneud yn anodd iawn i ddod o hyd i leoliad. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai awdurdodau lleol gefnogi sefydliadau celfyddydol drwy sicrhau bod lleoliadau ar gael a thrwy atal trethi busnes dros dro.¹⁵

Ansawdd a phroffesiynoldeb

37. Roedd gwneud 'rhagoriaeth' yn flaenoriaeth gan Gyngor y Celfyddydau wedi ennyn sylwadau gan ymatebwyr ynglŷn â phroffesiynoldeb ac ansawdd.

38. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer yr artistiaid proffesiynol sy'n ceisio cymorth a dywedodd ymatebwr unigol fod llai o gomisiynau ar gyfer artistiaid annibynnol. Nododd Cymdeithas Gerdd Harlech ac Ardudwy ei bod wedi gorfod cyflogi llai o gerddorion proffesiynol, a rhai rhatach er mwyn gwneud iawn am gael llai o gyllid.

39. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ei fod wedi'i chael yn gynyddol anodd i ariannu ymarferwyr celfyddydol proffesiynol sy'n fodlon teithio i ardal y Cymoedd. Mae hyn wedi arwain at fwllch yn y ddarpariaeth o weithgareddau celfyddydol fforddiadwy ac o ansawdd yn yr ardal. Nododd hefyd:

“Other issues relating to quality are those around local groups and organisations not valuing the professional arts practice of community arts practitioners and opting instead to ‘train’ people in a weekend to be a dance practitioner or using someone who can play the guitar to teach a group to do so - these devalue the work being done by professionals and make it increasingly difficult to make the case for the proper payment of artists in communities as well as potentially jeopardising people’s experience of the arts.”

¹⁴ Cyngor Sir Gâr - Celfyddydau 02

¹⁵ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

Casgliadau

40. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod sector y celfyddydau wedi bod yn destun pwysau sylweddol yn deillio o'r sefyllfa economaidd ehangach. Rydym hefyd yn cydnabod bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn mewn perthynas ag ariannu. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi golygu bod cyllid wedi'i dynnu oddi ar sefydliadau ac mae'n anodd gweld sut y gallant ddal ati.

41. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod sector y celfyddydau'n gydnerth, yn greadigol ac yn ymateb i newid. Fodd bynnag, nid yw effaith lawn yr argyfwng ariannu cyhoeddus wedi'i gweld eto, ac mae hyn yn rhywbeth y mae angen cadw golwg arno.

42. Ym Mhenodau 3 a 4, byddwn yn nodi'r ffyrdd y teimlwn y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn

3. Cyfeiriad Strategol

43. Yn y bennod hon, rydym yn trafod y materion strategol a all fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn y bennod flaenorol.

44. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o gamau gweithredu i wella hygyrchedd ac i gynyddu lefelau cyfranogiad yn y celfyddydau. Nod cyffredinol y camau gweithredu hyn yw ehangu mynediad at ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon, ac annog mwy o gyfranogiad, yn enwedig trwy dargedu teuluoedd sydd ar incwm isel a phlant, i ddefnyddio'r gwasanaethau. Y camau gweithredu unigol yw:

- ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru barhau i wella mynediad a lleihau'r rhwystrau rhag cyfranogi a gwerthfawrogi'r celfyddydau;
- ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru wneud y celfyddydau i bobl ifanc yn rhan ganolog o'i gynllun gweithredu yn y dyfodol, a hynny ar ffurf Compact ar y cyd â'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru ymgymryd â rôl strategol ddatblygiadol a chefnogol ar gyfer sefydliadau celfyddydol yng Nghymru.

45. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi datblygu [*Strategaeth Ymgysylltu yn y Celfyddydau \(2009-13\)*](#), sy'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth:

- cynyddu'r cyfleoedd i bobl gyfranogi'n llawn yn y celfyddydau;
- codi safon arfer y celfyddydau ymgysylltu;
- helpu'r celfyddydau ymgysylltu yng Nghymru i fod yn fwy cadarn a chynaliadwy.

46. Mae'r strategaeth yn nodi:

"Ym mis Mawrth 2008 fe wnaethom gyhoeddi Y Celfyddydau ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, adroddiad ar ganlyniadau gwaith ymchwil i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau. Roedd y prif resymau'n ymwneud â diffyg trafndiaeth gyhoeddus, diogelwch cymunedol, cost a diffyg diddordeb.

"Bellach, mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain, gan weithio drwy'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ac mewn

partneriaeth â'n hasiantaethau allweddol eraill, fel Awdurdodau Lleol a Chymunedau yn Gyntaf.”

Llythyr cylch gwaith blynyddol ac atebolrwydd

47. Roedd yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ymhlith sefydliadau ac unigolion, hyd yn oed os oedd eu sefydliad yn cael ei ariannu gan Gyngor y Celfyddydau.

48. Gwnaeth Cymdeithas Gerdd Harlech ac Ardudwy sylw ar atebolrwydd y Gweinidog Treftadaeth, gan nodi nad cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw penderfyniadau ariannu unigol Cyngor Celfyddydau Cymru. Teimlai fod hyn yn “gywilyddus”.

49. Fodd bynnag, cefnogodd Opera Canolbarth Cymru benderfyniad y Gweinidog i beidio â gwneud sylw ar achosion unigol:

“We believe that ACW is doing an excellent job and that the way in which the Welsh Government consistently refused during the Funding Review to get drawn into individual cases was appropriate.”

50. Nododd Theatr Hijinx yn ei thystiolaeth ysgrifenedig a'i thystiolaeth lafar, y dylai'r Cynulliad gael mwy o fewnbwn i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Gyngor Celfyddydau Cymru, drwy gynnal dadl flynyddol ar y celfyddydau. Teimlai Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad gael y cyfle i graffu ar benderfyniadau a chynnydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

51. Awgrymodd Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru y dylid ehangu cylch gwaith Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau.¹⁶ Yn ei dystiolaeth lafar, cytunodd Cyngor Celfyddydau Cymru â'r egwyddor hon ac awgrymodd y dylid cynnwys swyddogion o adrannau eraill y Llywodraeth yn aelodau o'r Bwrdd er mwyn annog gweithio ar draws adrannau.

52. Yn ei dystiolaeth lafar, ailfynegodd Cyngor Celfyddydau Cymru y byddai'n croesawu ehangu aelodaeth Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau,¹⁷ a nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y Bwrdd wedi bod yn ystyried ehangu ei aelodaeth yn ddiweddar. Gwnaeth sylw hefyd bod yn

¹⁶ Cymdeithas Cymru ar gyfer Celfyddydau Perfformio - Celfyddydau 24

¹⁷ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

rhaid cael cydbwysedd rhwng bod yn gwbl gynrychioliadol heb fod yn afrosgo.

53. Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru y byddai'n croesawu ymagwedd fwy cydlynol gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n cydnabod:

"[...] the work that the arts can contribute to a whole host of other areas, from education, to health, to economic development. The arts strategy board is intended to provide a vehicle for the arts council to liaise with Government as a whole, but, if you are asking me for my honest opinion on how effective that is, I would say that it is mixed and that we do not have quite as regular a relationship with other departments as we do with heritage."¹⁸

54. Nododd nifer o ymatebwyr eraill bwysigrwydd gwella gweithio ar draws adrannau, yn benodol rhwng llywodraeth leol, iechyd, addysg a'r celfyddydau. Crynhodd yr Ymddiriedolaeth Theatrau'r teimlad hwn:

"The Theatres Trust would like to see more collaboration between government departments which recognise the value of the arts across many other areas of policy – in education, tourism and inward investment and culture."

55. Gwnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw ynghylch cyfrifoldeb pwy yw ymgynghori â sefydliadau celfyddydol yn ystod y broses o greu llythyr cylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru:

"Consulting with those groups is very much the role of the arts council and local authorities. I suppose that the dilemma with consulting all arts groups is that you may get skewed away from real strategic planning."¹⁹

Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru

56. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn hapus â'r egwyddor hyd braich sydd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Nododd Celfyddydau Gwirfoddol Cymru:

"We believe strongly in the arm's-length principle. We think that it is important and right that the arts council is given the freedom to

¹⁸ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

¹⁹ Ibid

make the decisions, particularly the artistic decisions, about what is funded and what is not. ...

“I do not think that there is a huge amount wrong with that relationship at the moment. There is a danger of it becoming a red herring if what we are talking about is arts participation, because the majority of arts participation is not funded by the arts council.”²⁰

57. Canfu'r rhan fwyaf o sefydliadau fod proses adolygiad buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn glir ac yn deg, a chanmolodd llawer o sefydliadau Gyngor y Celfyddydau am ei gyngor a'i dryloywder. Gwnaeth Opera Cenedlaethol Cymru'r sylw canlynol:

“[...] the Arts Council of Wales provides clear advice and guidance and an open process for accessing project funding.”²¹

58. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o feirniadaeth o Gyngor Celfyddydau Cymru ynghylch ei ddull o wneud penderfyniadau a'r waith craffu. Nododd Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwyllynnol De Cymru:

“[ACW's] artform-based approach is archaic and not prone to developing participation in particular.”²²

59. Tynnodd Theatr Spectacle sylw at faterion yn ymwneud ag asesiadau ariannu Cyngor Celfyddydau Cymru:

“We strongly believe the current mechanism employed by the Arts Council to assess artistic quality is not transparent and disenfranchised valleys communities.”

60. Nododd Cyngor Sir Gwynedd bryderon ynghylch bylchau rhanbarthol:

“Yn dilyn y newidiadau diweddaraf i strywthurau'r Cyngor Celfyddydau, mae pryder yn cael ei ddatgan nad oes trosolwg rhanbarthol yn bodoli a all adnabod bylchau neu gyfleon i gynyddu cyfranogiad. Mae peryg i fwllch ddatblygu yma a allai effeithio ar gyfranogiad.”²³

²⁰ Tystiolaeth Lafar, 15 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s6979/15%20Mawrth%202012.pdf>

²¹ Opera Cenedlaethol Cymru - Celfyddydau 08

²² Cymuned Celfyddydau Rhyngddiwyllynnol De Cymru - Celfyddydau 21

²³ Cyngor Gwynedd - Celfyddydau 29

Y Sector Gwirfoddol

61. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y sector gwirfoddol yn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar hygyrchedd y celfyddydau. Gan fod gostyngiadau yng nghyllideb rhai sefydliadau wedi arwain at ddefnyddio mwy o wirfoddolwyr, teimlai'r Pwyllgor presennol ei bod yn briodol i ymchwilio i rôl y sector hwn a sut y gellir cefnogi ei waith. Nododd ymatebwr di-enw i'r ymgynghoriad yr hyn a ganlyn:

“I would say that the voluntary arts sector provides the majority of participatory opportunities, especially to people in areas of economic and social deprivation. Not only do they give access but they provide many social benefits - social networks, health issues (especially community dance) informal education, integration, therapy and social change.”

62. Nododd Celfyddydau Anabledd Cymru hefyd y rhwydwaith effeithiol y mae sector y celfyddydau gwirfoddol yn ei ddarparu:

“The voluntary arts sector is vital in maintaining links and networks in the arts, working closely with artists / participants who may be outside of the kind of artists funded by ACW.”

63. Gwnaeth Theatr y Torch sylw bod angen ailfywiogi sector y celfyddydau gwirfoddol, a theimlai mai'r awdurdodau lleol ddylai arwain yn hyn o beth.

Rhwydweithiau

64. Tynnodd chwe sefydliad sylw at bwysigrwydd rhwydweithiau o ran cysylltu sefydliadau celfyddydol gwirfoddol gyda'i gilydd. Gwnaeth Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, y prif gorff amabarél ar gyfer sefydliadau celfyddydol gwirfoddol yng Nghymru, rai argymhellion allweddol ar gyfer datblygu'r sector, a oedd yn cynnwys gwella cysylltiadau rhwng sefydliadau. Dyma oedd yr argymhellion:

- mapio neu ymchwilio i'r cyfranogiad presennol yn y celfyddydau;
- mwy o gysylltiadau rhwng y celfyddydau amatur, celfyddydau cymunedol proffesiynol a sefydliadau celfyddydol proffesiynol;
- mwy o gymorth i Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru a chyrrff amabarél y celfyddydau gwirfoddol cenedlaethol er mwyn gwella cynwysoldeb ac amrywiaeth o fewn grwpiau celfyddydol amatur lleol;

- cydweithio mwy holistaidd rhwng y celfyddydau amatur a'r celfyddydau proffesiynol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach.²⁴

65. Awgrymodd Cyster y byddai gwasanaethau cynghori, lleoliadau fforddiadwy a synnwyr o symudiad ehangach yn gwella cyfranogiad drwy sector y celfyddydau gwirfoddol.

66. Cydnabu Cynghorau Blaenau Gwent a Phowys rôl awdurdodau lleol o ran darparu cyngor, a hynny'n benodol yn ymwuned â'r materion ymarferol o redeg grŵp, fel diogelu plant, marchnata a thrwyddedu. Tynnodd Cyngor Caerffili hefyd sylw at bwysigrwydd cymdeithasau rhwydweithio gwirfoddol fel Cymdeithasau Mudiadau Gwirfoddol Gwent.

67. Nododd Rhaglen Cynhwysiant Ieuenctid Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych y byddai'n croesawu mwy o gyfleoedd i rannu arfer da, a defnyddiodd y gynhadledd a drefnwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2011 fel enghraifft.

Ansawdd a phroffesiynoldeb

68. Nododd Cwmni'r Frân Wen a Theatr Gwent y byddai mwy o gydweithio rhwng sector y celfyddydau gwirfoddol a sector y celfyddydau proffesiynol yn fanteisiol i'r celfyddydau gwirfoddol. Nododd ArtWorks Valleys Kids fod angen y canlynol arnynt:

“[...] high quality professional workers with the skills to deliver community and youth arts at a high level - this is highly skilled work if done properly it can have a huge impact on intervening successfully in supporting young people and members of the community.”

69. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod gallu sefydliadau celfyddydol gwirfoddol yn gyfyngedig oherwydd y diffyg proffesiynoldeb:

“In general there are a lot of participatory opportunities promoted through the voluntary arts sector however these are not always based on strong foundations e.g. professional practitioners, sound business awareness etc. which makes their capacity limited.”

70. Tynnodd Celf ar y Blaen sylw at bwysigrwydd buddsoddi mewn unigolion, ac annog ansawdd a phroffesiynoldeb, hyd yn oed yn y celfyddydau gwirfoddol:

²⁴ Celfyddydau Gwirfoddol Cymru - Celfyddydau 10

“The voluntary arts sector is particularly active in areas of multiple deprivation like Merthyr Tydfil but though laudable, the quality of work is often poor. It’s difficult to persuade someone to pay a professional practitioner when there’s a willing volunteer who “knows a bit”.

“We only employ highly experienced community arts practitioners, often finding ways of getting them to work alongside volunteer tutors to help raise the quality - and demonstrate the difference that it can make having someone who really knows what they are doing. The availability of revenue funding as well as capital from HOV would help this enormously.”

Dyletswyddau cydraddoldeb

71. Mae awdurdodau cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru, ond nid dyna’r achos gyda mwyafrif y sefydliadau celfyddydol. Fodd bynnag, os ydynt yn cael eu hariannu gan awdurdod lleol, neu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gall sefydliadau celfyddydol deimlo effaith y dyletswyddau’n anuniongyrchol.

72. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amlinellodd Cyngor Celfyddydau Cymru yr amcanion y bydd yn gweithio tuag atynt yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Er nad oes gan rai o Sefydliadau Refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru efallai’r modd i gyflawni amcanion cydraddoldeb cyffredinol Cyngor y Celfyddydau ar hyn o bryd, pwysleisiodd y Cyngor ei fod yn gweithio i wella hyn:

“We have a development programme with our portfolio of revenue organisations, and part of that looks at how they will help us to address child poverty and the equalities agenda. We will be implementing that over the next 12 months. For many of those organisations, it is about understanding better what they are already delivering.”²⁵

73. Nid oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn hollol ymwybodol o wir hyd a lled y dyletswyddau cydraddoldeb, ond roedd llawer yn ymddangos yn gadarnhaol y byddai’r dyletswyddau o gymorth i sicrhau y byddai darpariaeth gelfyddydol ar gael i bawb, waeth beth fo’u rhyw, oed, anabledd, rhywioldeb, crefydd neu eu hethnigrwydd. Credai Celfyddydau Anabledd Cymru y

²⁵ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

byddent heb amheuaeth yn cynyddu cyfranogiad a nododd Amgueddfa Genedlaethol Cymru fod y dyletswyddau yn:

“[...] an extremely positive step for public bodies to be aligned and developing joint approaches to increase participation.”²⁶

74. Nododd Live Music Now Cymru ei bod yn dda cael bod yn rhan o'r drafodaeth ar [y dyletswyddau cydraddoldeb] yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth Amgueddfa Casnewydd sylw y bydd y dyletswyddau cydraddoldeb yn cryfhau polisiau a sefydlwyd ers talwm a pholisiau a oedd eisoes yn bodoli i lawer o awdurdodau lleol. Nododd Cyngor Sir Gwynedd:

“It became clear from [the consultation process] that ethnic minority groups are particularly eager to know more and to participate more with the arts on a local level. We believe that there is strong potential to build on this: by informing groups about events and also supporting them to engage with the arts.”²⁷

75. Credai Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange nad oedd mesurau o'r fath yn gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff gweithgareddau eu darparu, ond eu bod yn cynyddu biwrocratiaeth a dulliau adrodd. Teimlai Theatr y Byd Bach fod y broses o ddiffinio a thargedu 'grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol' yn creu rhaniad ynddo'i hun.²⁸

76. Teimlai rhai sefydliadau mai ychydig o effaith fyddai dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn eu cael ar gyfranogiad yn y celfyddydau oherwydd bod bwch rhwng strategaeth a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Roedd Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yn ffafrio defnyddio'r dyletswyddau fel rhan o ddull mwy holistaidd o gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau. Teimlai nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Bagad Pibau Morgannwg, y byddai'r dyletswyddau cydraddoldeb yn aneffeithiol oni bai bod y cyllid yn cael ei gynyddu i sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r farn a drafodwyd yn gynharach ynghylch y cyfyngiadau a roddir ar brosiectau pan gaiff cyllid ei dargedu at grŵp penodol o bobl.

Ein barn ni

77. At ddibenion yr ymchwiliad hwn, gwahaniaethodd y pwyllgor rhwng hygyrchedd a chyfranogiad. Mae cysylltiad cryf rhwng y rhain, gan fod

²⁶ Amgueddfa Cymru - Celfyddydau 13

²⁷ Cyngor Gwynedd - Celfyddydau 29

²⁸ Theatr Small World - Celfyddydau 25

cysylltiad cryf rhwng hygyrchedd at y celfyddydau a lefelau cyfranogiad. Mewn llawer o achosion, cael profiad o'r celfyddydau sy'n gallu ysbrydoli unigolion i gymryd rhan a rhoi cynnig arni eu hunain. Fodd bynnag, fe wnaethom ganolbwyntio ar gyfranogiad, gan fod adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad blaenorol ar hygyrchedd y celfyddydau a diwylliant wedi mynd i'r afael â nifer o faterion yn ymwneud â hygyrchedd.²⁹

78. Ym mis Tachwedd 2012, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr adroddiad hwnnw.³⁰ Rydym yn croesawu'r cynnydd a amlinellwyd yn y wybodaeth ddiweddaraf.

Cynllun gweithredu ar gyfranogi

79. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a hygyrchedd. O'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd i'r Pwyllgor, mae'n amlwg bod cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd allweddol. Teimlwn y gellir adeiladu ar y cynnydd hwn, er mwyn sicrhau bod gan unigolion sy'n profi'r celfyddydau, ac sy'n cael eu hysbrydoli i fod eisiau cymryd rhan, fynediad at y cyfleoedd hynny. Byddai cynllun gweithredu cyfranogi, ochr yn ochr â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd a chydraddoldeb, yn ddefnyddiol o ran pennu cyfeiriad strategol a gallai gynyddu lefelau cyfranogiad.

Monitro lefelau cyfranogiad

80. Rydym yn cydnabod nad mater hawdd yw mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogi. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i fonitro lefelau cyfranogiad ar draws y celfyddydau, er mwyn cael darlun cyflawn o effaith toriadau yn y cyllid ar gyfranogiad. Dylai'r cynllun gweithredu hefyd gynnwys mesurau i ganfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru (e.e. oherwydd rhesymau daearyddol, economaidd neu gymdeithasol).

Llythyr cylch gwaith blynyddol

81. Rydym yn nodi bod y Llywodraeth wedi cyflawni'i hymrwymiad i bwysleisio pwysigrwydd materion cydraddoldeb a hygyrchedd yn ei lythyrau

²⁹ Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru](#)

³⁰ [Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru](#), (Tachwedd 2012)

cyloch gwaith ar gyfer 2012/13. Teimlwn y dylai'r llythyrau hyn hefyd roi pwyslais ar gynyddu lefelau cyfranogiad.

Gweithio mewn partneriaeth

82. Os yw lefelau cyfranogiad am gynyddu, mae angen cydweithio ar lefel strategol. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth fel gofyniad penodol yn y llythyr cyloch gwaith blynyddol, ac wrth gwrs, rydym yn croesawu hyn.

83. Mae angen cydweithio effeithiol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, awdurdodau lleol a rhwydweithiau'r sector gwirfoddol. Mae enghreifftiau o arfer da ar y mater hwn e.e. 'ClymuCelf' a gwaith yn ymwneud â chompart Simpson. Mae angen adeiladu ar hyn a'i ddatblygu. Felly mae angen i'r cynllun gweithredu gynnwys partneriaid a rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth.

84. Rydym yn croesawu'r ffordd y mae strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnwys cymorth i sefydliadau rhwydwaith fel Celfyddydau Anabledd Cymru, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru. O ran cynyddu lefelau cyfranogi, teimlwn y gall y rhwydweithiau hyn chwarae rhan ganolog. Felly, dylid ymgynghori â'r rhwydweithiau hyn wrth lunio'r cynllun gweithredu ar gyfranogi a dylent chwarae rhan mewn sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith.

Cyfleoedd i sefydliadau gyfrannu at strategaeth gelfyddydol

85. Awgrymodd nifer o dystion y dylai sefydliadau gael mwy o gyfleoedd i gyfrannu at strategaethau celfyddydol. Yn wir, awgrymwyd hefyd y dylai sefydliadau gael y cyfle i gyfrannu at lythyr cyloch gwaith blynyddol y Gweinidog. Nid ydym yn credu fod hyn yn briodol, ond rydym yn cydnabod bod angen cyfleu barn sefydliadau ar gyfer datblygu polisiau, yn enwedig mewn materion fel cyfranogiad yn y celfyddydau, lle byddai profiad 'ar lawr gwlad' yn ddefnyddiol.

Cydweithio ymysg Adrannau Llywodraeth Cymru

86. Mae adrannau Llywodraeth Cymru eisoes yn cydweithio ar nifer o faterion yn ymwneud â'r celfyddydau, e.e. iechyd ac addysg. Mae angen i hyn barhau fel y gellir defnyddio adnoddau prin i gael yr effaith fwyaf. Dylai'r cynllun gweithredu ar gyfranogi gynnwys camau gweithredu ar gyfer gwahanol adrannau'r Llywodraeth, gan sicrhau cydweithio effeithiol.

Rôl Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru

87. Roeddem wedi synnu nad oedd nifer o sefydliadau, yr oedd rhai ohonynt wedi cael cymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn deall sut yr oedd Llywodraeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau yn gweithio gyda'i gilydd. Teimlwn y gellid gwneud rhywfaint o waith i roi gwybod i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru sut mae'r 'system' yn gweithio fel y gallant werthfawrogi'n well y gwahanol haenau o waith sy'n cael eu gwneud.

Dylai Llywodraeth Cymru roi ar waith gynllun gweithredu ar gyfranogi, ochr yn ochr â'i gynllun gweithredu hygyrchedd, gyda'r diben o gynyddu lefelau cyfranogi ledled Cymru.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i fonitro lefelau cyfranogi ar draws y celfyddydau, a champau gweithredu i ganfod anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth (e.e. oherwydd rhesymau daearyddol, economaidd neu gymdeithasol).

Yn ychwanegol at hygyrchedd a chydraddoldeb, dylai llythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru gynnwys pwyslais ar gynyddu lefelau cyfranogi.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i sicrhau cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth a chydweithio ymhlith partneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

4. Cyllid

88. Yn y bennod hon, byddwn yn edrych ar y prif bryder a godwyd gan dystion, sef cyllid. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar, codwyd nifer o faterion, yn enwedig yn ymwneud â'r canlynol:

- dulliau ariannu, gan gynnwys targedu ac ariannu tymor byr a hirdymor.
- anawsterau'n ymwneud â chael mynediad at gyllid, gan gynnwys cyngor a chanllawiau; a
- mynediad at ffynonellau ariannu eraill, gan gynnwys buddsoddi preifat.

89. Pwysleisiodd Cyngor Celfyddydau Cymru,³¹ Celfyddydau Gwirfoddol Cymru,³² a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru³³ fod sector y celfyddydau yng Nghymru yn gadarn, yn greadigol ac yn ymateb i newid. Nodwyd y bydd celf yn parhau i gael ei greu gyda neu heb gymhorthdal cyhoeddus, ond bydd gostyngiad mewn cyllid, yn cael effaith anochel ar faint o gyfleoedd fydd gan bobl i gymryd rhan, yn enwedig ar gyfer grwpiau penodol o bobl.

90. Tynnodd ymgylgoreion sylw at y ffaith nad yw gostyngiadau yn y gyllideb wedi dod gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn unig, ond gan awdurdodau lleol, y sector preifat, ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau ac adrannau eraill y Llywodraeth fel addysg ac iechyd. Teimlai rhai bod gostyngiadau yn y gyllideb wedi gorfodi rhai sefydliadau i weithio'n fwy effeithiol a chreadigol, ac y gallai hyn wella'u gwaith yn y tymor hir.

91. Gwnaeth sefydliadau'r sylw bod y galw am y celfyddydau yn cynyddu'n barhaus, ac nad yw'r galw hwnnw'n cael ei ddiwallu. Pwysleisiodd Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er nad yw lefelau cyfranogiad wedi disgyn yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, fod posibilrwydd y byddai gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithio ar lefelau yn y tymor hir, yn enwedig ymhlith grwpiau penodol o bobl.

92. Y farn gyffredinol gan ymatebwyr oedd nad oes digon o ffynnonellau ariannu eraill i sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan Gyngor

³¹ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

³² Tystiolaeth Lafar, 15 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s6979/15%20Mawrth%202012.pdf>

³³ Tystiolaeth Lafar, 29 Mawrth 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7173/29%20Mawrth%202012.pdf>

Celfyddydau Cymru, a bod angen cymorth a chynghor ar sefydliadau er mwyn canfod cyllid, gwneud cais amdano a'i reoli.

93. Crynhodd Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange y sefyllfa o ran cyllid i sefydliadau celfyddydol:

“The funding map has changed. The way the Arts Council of Wales delivers its funds has changed, the number of organisations receiving revenue funding has decreased. Local authority funding levels are static, this position is in reality an inflationary cut in resources. Charitable trusts and foundations are receiving significantly higher numbers of applications. Capital schemes are on hold until after the 2012 Olympics.”

Targeddu

94. Cafodd y symudiad at gyllid sy'n rhoi sylw i'r canlyniadau ac sy'n targedu grwpiau penodol o bobl ymatebion cadarnhaol a negyddol. Cododd un deg pedwar o ymatebwyr y mater hwn.

95. Teimlai Celf ar y Blaen fod sefydliadau'n gorfod gwrthod unigolion nad ydynt yn 'gweddu' i grŵp targed, a bod hynny wedi arwain at ostyngiad mewn lefelau cyfranogiad yn gyffredinol. Dywedodd Sefydliad Josef Herman:

“There are also many examples of arts being funded just because they are focussed on minority communities, rather than being quality activities. Funders should of course support under-represented groups, but not just because they are under-represented.”

96. Nododd Arts 4 Wellbeing ac Engage Cymru fod pwyslais ar ariannu grwpiau o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gwnaethant y sylw fod hyn wedi golygu bod llai o gyllid ar gael ar gyfer grwpiau eraill o bobl.

97. Tynnodd Arts Active sylw hefyd at y ffaith y gallai targedu arian er mwyn mynd i'r afael â bylchau daearyddol neu ddemograffig arwain at lastwreiddio'r ddarpariaeth.

“[...] That is not to say that inspiring and fantastic work is not happening in all sorts of places it is just a worry that work can be diluted and the experiences become standardised and deliverable rather than transformational and inspirational.”

98. Fodd bynnag, teimlai rhai sefydliadau fod targedu arian yn gymorth i leddfu effaith anghyfartal gostyngiadau cyffredinol yn y gyllideb, er enghraifft, i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Nododd Bagad Pibau Morgannwg effaith gadarnhaol y cynnydd mewn cyllid ar gyfer ardaloedd difreintiedig Merthyr Tudful:

“Mae wedi bod cynnydd yn y swm o arian sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau celfyddydol yn ein ardal, Merthyr Tudful, sydd yn ddatblygiad positif iawn [...] Mae pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn elwa yn fwy o gynnydd yn y arian celfyddydol. Ym Merthyr Tudful mae na gyfleoedd newydd i bobl ifanc i wneud drama, dawns, cerddoriaeth, celf gweledol ayyb.”

99. Nododd Celfyddydau Anabledd Cymru hefyd ei fod wedi cael mwy o gyllid i weithio gydag artistiaid anabl ledled Cymru gyfan:

“Our organisation Disability Arts Cymru has received enhanced funding from ACW, which enables us to provide a better, more effective service with a more equal spread across Wales.”

Cyllid tymor byr a thymor hir

100. Dywedodd pum ymatebwr fod grantiau refeniw bach yn fwy defnyddiol na chyllid craidd hirdymor, ond dywedodd saith ymatebwr mai sefydlogrwydd cyllid oedd yr allwedd i gynaliadwyedd hirdymor.

101. Teimlai Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange mai cynaliadwyedd hirdymor a chyllid craidd oedd y materion pwysicaf i sefydliadau celfyddydol. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o'r Ganolfan mai sefydlogrwydd yw'r allwedd i ddatblygiad strategol ac ategodd Re-Live y teimlad hwn. Cafodd yr angen am sefydlogrwydd hefyd ei godi gan Cyster, Theatr Fforwm Cymru a Hijinx.

102. Nododd ArtWorks Cymru:

“Our research has told us that one of the things artists feel is key to good quality participatory arts is time around planning and delivery, and with reduced funding this is one of the things that may be affected.

“The current funding situation means that artists are not able to create long term, or multi art form projects and shorter term projects are expected to deliver longer term outcomes.”³⁴

103. Gwnaeth llawer o sefydliadau sylw ar y diffyg ymwybyddiaeth o gronfeydd cyllido llai, fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a awgrymodd rai arferion da:

“Little is known about other possible sources of funding for the arts, particularly not for smaller pockets of funding and money to pay artists (often seen as a revenue rather than a project cost). ...

“Sports Wales’s model of Community Chest seems a really positive one and it may be worth considering looking at the viability of a similar model suited to community arts to assist with these issues among local groups, organisations and societies.”

104. Tynnodd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd sylw at bwysigrwydd cyflymder a hyblygrwydd o ran cyllid ar gyfer y sector celfyddydau gwirfoddol:

“[The voluntary arts sector] has the power to adapt very quickly to community need and changing issues. It needs access to fast and flexible funds, it doesn’t have to be huge amounts of moneys. They just need to be able to spend it on what ever makes the project work.”

105. Nododd Arts Active werth digwyddiadau ‘etifeddol’ sy’n rhoi hwb i weithgarwch mewn ardal, ac awgrymodd Celf ar y Blaen nad oedd arian cyfalaf yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol.

Cystadleuaeth

106. Nododd wyth sefydliad fod y gystadleuaeth am gyllid celf wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Gwnaeth Arts Active y sylw canlynol:

“There are many trusts and foundations but it is a very competitive landscape and hard to get long term sustainable funding.”

107. Awgrymodd Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru rai rhesymau am y cynnydd mewn cystadleuaeth a’r rhwystrau y mae sefydliadau’n dod ar eu traws wrth wneud cais am arian:

³⁴ ArtWork Cymru - Celfyddydau 12

“There are more and more charitable organisations chasing fewer and fewer pots of money, and the amount available from some UK based foundations is not that large in any case. The reserves and investments of all such Trusts have of course taken a hit over the last three years and with interest rates flat-lined, will remain in that state for the foreseeable future.

“For small organisations the time and expense in making applications to a variety of trusts is disproportionate to the amount that might be given out. It is also virtually impossible to find corporate sponsorship in the present financial climate.”

108. Nododd Celfyddydau Anabledd Cymru a Sefydliad Josef Herman ei bod yn arbennig o annodd i artistiaid annibynnol gael mynediad at ymddiriedolaethau elusennol.

Cyngor a chanllawiau

109. Yn eu tystiolaeth lafar, tynodd cynrychiolwyr Hijinx sylw at y diffyg capasiti a gwybodaeth o fewn sefydliadau celfyddydol bach o ran dod o hyd i ffynonellau ariannu eraill a gwneud cais am arian. Pwysleisiodd llawer o sefydliadau eraill, fel Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf a Thŷ Cerdd, yr angen am ragor o ganllawiau a hyfforddiant ar gyfer sefydliadau celfyddydol bach i ddod o hyd i arian a gwneud cais amdano.

110. Nododd Canolfan Celfyddydau Pontardawe fod diffyg hyder ymhlith grwpiau cymunedol i gael mynediad at gronfeydd, a dywedodd eu bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Ategodd Cyngor Sir Powys hyn, gan ddweud bod breuder a maint bach grwpiau yn cyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at arian, gan fygwth eu cynaliadwyedd.

111. Nododd Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru, Dawns TAN a Theatr Felinfach bwysigrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sefydliadau ambarél o ran darparu cyngor ynghylch cyllid. Dywedodd cynrychiolwyr y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru:

“There is a lack of guidance available for individuals and group for alternative funding sources if they are turned away from the Arts Council.

“BVNW has a role to play in assisting these groups with funding allocation.”³⁵

112. Nododd cynrychiolwyr Theatr Felinfach fod Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn chwarae rhan bwysig:

“Roedd rôl Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yn werthfawr wrth ymddwyn fel "arwydd-bost" i fudiadau neu sefydliadau oedd am ddatblygu syniad. Mae'r CCGG/WCVA yn chwarae rhan bwysig o ran y sector gwirfoddol yn ogystal ac yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i'r sector celfyddydau cyfranogol.”³⁶

113. Tynnodd Dawns TAN sylw at rai arferion da o Loegr:

“We note that Arts and Heritage in England have set up a Catalyst Arts and Catalyst Heritage fundraising capacity building grants programme and wonder if it would be possible to set up a similar programme in Wales? A grant from such a programme would solve our problem of insufficient capacity to pursue new funding avenues.”³⁷

114. Tynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru sylw at y ffaith ei fod yn bwriadu creu gwasanaeth gwybodaeth newydd:

“We are going to invest more time and energy in producing better information.

“We are going to start running information and advisory surgeries across Wales. We will try to ensure that we are providing more advisory and information services at a local level, for people who perhaps cannot travel to our regional offices across Wales.”³⁸

Buddsoddi preifat

115. Trafododd wyth ymatebwr fuddsoddi preifat a nawdd corfforaethol. Tynnodd cynrychiolwyr Celfyddydau a Busnes Cymru sylw at eu gwaith presennol, a'u hymateb i'r dirywiad yn yr economi:

